Cyfraith breifat | Ebrill 2023

# Datgelu cyfraith teulu breifat: Archwilio ceisiadau sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni ('y 10% arall')


**Awduron**
Linda Cusworth
Claire Hargreaves
Bachar Alrouh
Laura North
Laura Cowley
Mariam Abouelenin
Steffi Doebler
Lucy Griffiths
Karen Broadhurst



Nuffield Family Justice Observatory


Adroddiad

**Nod yr adroddiad hwn yw gwneud synnwyr o gymhlethdod ac amrywiaeth 'y 10% arall' o geisiadau cyfraith teulu breifat – y rhai hynny sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni. Dyma'r chweched mewn cyfres sy'n ceisio helpu i gynyddu'r sylfaen dystiolaeth ynglŷn ag achosion plant cyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr.**


**Awduron**
Dr Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn
Dr Claire Hargreaves, Prifysgol Caerhirfryn
Dr Bachar Alrouh, Prifysgol Caerhirfryn
Dr Laura North, Prifysgol Abertawe
Dr Laura Cowley, Prifysgol Abertawe
Dr Marian Abouelenin, Prifysgol Caerhirfryn
Dr Steffi Doebler, Prifysgol Caerhirfryn
Dr Lucy Griffiths, Prifysgol Abertawe
Yr Athro Karen Broadhurst, Prifysgol Caerhirfryn



**Cydnabyddiaeth**
Hoffai'r awduron ddiolch i aelodau eraill y tîm sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, a ariennir gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield – gan gynnwys Jon Smart, Ashley Akbari, Kerina Jones, Simon Thompson a'r Athro David Ford. Diolchwn i Lisa Harker, Jude Eyre, Aliya Saied-Tessier ac Alice Roe (Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield), Teresa Williams a Saif Ullah (Cafcass), Matthew Pinnell ac Anna Sinclair (Cafcass Cymru), ac adolygwyr cymheiriaid allanol, am gynorthwyo â'r prosiect ac adolygu'r adroddiad hwn yn adeiladol.

**Cyfeiriad argymelledig**
Cusworth, L. et al. (2023). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Archwilio ceisiadau sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni ('y 10% arall')*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-exploring-applications-that-involve-non-parents

## Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn mewn partneriaeth â'r canlynol:

Family Justice Data Partnership

Centre for Child & Family Justice Research

Lancaster University

SAIL DATABANK

Population Data Science at Swansea University

Swansea University Prifysgol Abertawe Medical School Ysgol Feddygaeth

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **i** | Crynodeb |
| **01** | Cyflwyniad |
| **05** | Methodoleg |
| **08** | Canfyddiadau |
| **40** | Trafodaeth |
| **44** | Casgliadau |
| **46** | Cyfeiriadau |
| **50** | Atodiad A: Tablau atodol |
| **53** | Atodiad B: Fframwaith cyfreithiol |


**Ymwadiad**

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad.


Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2023



100 St John Street, Llundain EC1M 4EH Rhif ffôn: 020 7631 0566
Elusen gofrestredig 206601

nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO
www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound

# Rhagair

Pan fyddwn yn sôn am achosion cyfraith breifat yn y llysoedd teulu, byddwn yn aml yn ychwanegu'r cymal 'fel arfer achosion sy'n ymwneud â rhieni sy'n gwahanu' i esbonio. Rydym yn gwybod o'n gwaith ymchwil blaenorol bod hyn yn wir ym mwyafrif yr achosion. Ond mae lleiafrif arwyddocaol o achosion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r teulu neu oedolion eraill. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf yn ein cyfres Datgelu Cyfraith Breifat i archwilio'r achosion 'ansafonol' hyn.

Efallai mai dim ond 10% o achosion cyfraith breifat yw achosion ansafonol – ond maen nhw'n ymwneud â miloedd o bobl. Yn wir, mae nifer yr achosion o'r fath yn gyfwerth â thraean o'r achosion cyfraith gyhoeddus y mae'r llys teulu'n eu clywed bob blwyddyn. Ac eto, hyd yma, mae'r agenda diwygio cyfraith breifat wedi canolbwyntio'n benodol ar rieni sy'n gwahanu, gan anwybyddu anghenion y grŵp ehangach hwn o deuluoedd.

Un o nodweddion achosion ansafonol yw eu potensial i gynrychioli gorgyffyrddiad rhwng yr hyn y gallem ei ystyried yn nodweddiadol yn faterion cyfraith breifat a chyfraith gyhoeddus. Achosion yw'r rhain lle mae'n ymddangos bod plant yn derbyn gofal gan oedolion heblaw am eu rhieni ac, er bod yr achosion hyn yn cael eu trin gan y llysoedd cyfraith breifat, gallai pryderon amddiffyn plant fodoli yn y cefndir. Mae'r achosion hyn yn cynrychioli sefyllfaoedd hynod bwysig i deuluoedd, boed hynny mewn cyfraith gyhoeddus neu breifat, ond mae'r ffaith eu bod yn cael eu trin yng nghyd-destun cyfraith breifat yn arwain at rai goblygiadau arwyddocaol. I rai, gallai'r llwybr cyfraith breifat gynrychioli ymateb mwy cadarnhaol i anawsterau teuluol – teuluoedd sy'n canfod eu datrysiadau eu hunain i broblemau ac yn ceisio eu ffurfioli heb ymyrraeth gan y wladwriaeth. I eraill, gallai'r cefndir fod yn llai cadarnhaol. Nid yw'r hawliadau sy'n dod gydag achosion cyfraith gyhoeddus (fel cymorth cyfreithiol i rieni a phenodi gwarcheidwad yn awtomatig i gynrychioli plant) yn cael eu rhoi i'r rhai yn y system cyfraith breifat.


Mae'r Adolygiad Annibynnol diweddar o Ofal Cymdeithasol i Blant, ac ymateb y llywodraeth, wedi amlygu pwysigrwydd gofal gan berthynas fel modd o ddarparu sefydlogrwydd a gofal i blant pan allai eu rhieni fod yn profi anawsterau. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i hybu trafodaethau defnyddiol ynglŷn â defnyddio achosion cyfraith breifat yn y cyd-destun hwn, a helpu ymarferwyr a llunwyr polisïau i ganolbwyntio ar yr hyn y gallai bodloni anghenion y teuluoedd hyn ei olygu.

Lisa Harker
Cyfarwyddwr

# Crynodeb

Mae ceisiadau plant cyfraith breifat yn cael eu gwneud gan rieni ac aelodau eraill o'r teulu pan na ellir cytuno ar y trefniadau ar gyfer magwraeth plentyn, fel ble y dylai fyw a/neu bwy y dylai ei weld. Cadarnhaodd adroddiadau blaenorol yn y gyfres *Datgelu Cyfraith Teulu Breifat* fod tua 90% o'r rhain – ceisiadau safonol – rhwng dau riant (Cusworth et al. 2020; Cusworth et al. 2021a). Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar 'y 10% arall' – y cyfeirir atynt fel ceisiadau 'ansafonol' – sy'n ymwneud ag un neu fwy o bobl nad ydynt yn rhieni, fel neiniau a theidiau, modrybedd ac ewythrod, brodyr a chwiorydd, llys-rieni, gwarcheidwaid arbennig, gofalwyr maeth, rhieni bwriadedig a thadau tybiedig, fel ymgeisydd/ymgeiswyr a/neu ymatebydd/ymatebwyr.[1] Gall rhieni ymwneud â cheisiadau o'r fath hefyd, naill ai fel y parti arall, neu fel ymgeisydd neu ymatebydd ar y cyd gyda'r unigolyn nad yw'n rhiant.

## Mathau o berthnasoedd nad ydynt yn rhieni




Amcanion yr astudiaeth hon gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe – oedd:

- ymchwilio i nifer a chyfraddau'r ceisiadau cyfraith breifat sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni, gan gynnwys amrywiadau rhanbarthol
- disgrifio nodweddion yr oedolion a'r plant dan sylw, o ran oedran, rhywedd, amddifadedd lefel ardal, ac ethnigrwydd
- archwilio presenoldeb adroddiadau ac ymchwiliadau a orchmynnwyd gan y llys sy'n dynodi pryderon lles ac yn galluogi cyfranogiad plant
- gwahaniaethu rhwng y mathau o geisiadau sy'n dod trwy'r llysoedd.

1 Tad tybiedig yw'r term cyfreithiol i ddisgrifio dyn y rhagdybir neu yr honnir ei fod yn dad plentyn.

**Ynglŷn â'r data**

Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddata gweinyddol dienw ar lefel y boblogaeth gan Cafcass a Cafcass Cymru, ynglŷn â'r holl geisiadau plant cyfraith breifat a gychwynnwyd mewn achos cyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr rhwng 2017/18 a 2020/21.[2,3] Roedd y carfanau 4 blynedd cyfunol yn cynnwys 249,800 o geisiadau cyfraith breifat yn Lloegr a 13,000 o geisiadau cyfraith breifat yng Nghymru. Ar hyd yr un cyfnod, gwnaethom gyfrifo mai nifer y ceisiadau cyfraith gyhoeddus ar gyfer gorchymyn gofal neu oruchwylio oedd 61,800 yn Lloegr a 3,900 yng Nghymru.[4]

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar geisiadau cyfraith breifat ansafonol – y rhai hynny sy'n ymwneud ag ymgeisydd/ymgeiswyr a/neu ymatebydd/ymatebwyr nad ydynt yn rhieni – cyfanswm o 22,000 yn Lloegr a 1,200 yng Nghymru dros y cyfnod 4 blynedd. Mae'r perthnasoedd rhwng yr oedolion a'r plant mewn cais yn cael eu cofnodi yn y data gweinyddol, sy'n caniatáu i ni wahaniaethu rhwng ceisiadau ansafonol a safonol. Mae statws perthynas yn yr astudiaeth hon wedi'i seilio ar berthynas yr oedolyn â'r plentyn ieuengaf (testun).

Mae'r dadansoddiadau'n ddisgrifiadol a dylid eu hystyried yn rhai rhagarweiniol.

2 Mae'r astudiaeth yn adrodd ar orchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt o fewn achosion cyfraith breifat, nid gorchmynion a wnaed ar ddiwedd achosion, felly ni welir unrhyw orchmynion cyfraith breifat a wnaed o fewn achosion cyfraith gyhoeddus.

3 Dylid bod yn ofalus wrth gymharu rhwng Cymru a Lloegr o ganlyniad i wahaniaethau mewn arferion cofnodi. Yn Lloegr, roedd ceisiadau mabwysiadu nad ydynt yn ymwneud ag asiantaeth yn aml yn cael eu cofnodi fel achosion cyfraith gyhoeddus, ac felly ni chawsant eu cynnwys yn yr astudiaeth hon. Mae hyn yn wahanol i Gymru, lle mae ceisiadau mabwysiadu nad ydynt yn ymwneud ag asiantaeth yn cael eu cofnodi fel achosion cyfraith breifat.

4 Mae ffigurau blynyddol ar gael yn Nhablau A.1 ac A.2 yn Atodiad A.

# Canfyddiadau allweddol

## Faint o geisiadau ansafonol a wnaed?

- Rhwng 2017/18 a 2020/21, gwnaed tua 5,500 o geisiadau cyfraith teulu breifat ansafonol bob blwyddyn yn Lloegr a 300 yng Nghymru. Mae hyn yn gyfystyr ag oddeutu traean o'r ceisiadau cyfraith gyhoeddus ar gyfer gorchymyn gofal neu oruchwylio – 15,500 bob blwyddyn yn Lloegr a 1,000 yng Nghymru.
- Dros y cyfnod 4 blynedd, roedd 8.0 o geisiadau ansafonol fesul 10,000 o deuluoedd yn y boblogaeth gyffredinol yn Lloegr ac 8.5 yng Nghymru – ond roedd amrywiad rhanbarthol amlwg. Gwelwyd y cyfraddau cyffredinrwydd uchaf yn Swydd Efrog a'r Humber (10.4) a Gogledd-ddwyrain Lloegr (10.8), a oedd fwy na dwywaith cymaint â'r cyfraddau isaf, a welwyd yn Llundain (4.7). Mae'r duedd hon yn cyd-fynd â'r amrywiad daearyddol mewn ceisiadau cyfraith breifat safonol.

## Pa geisiadau a wnaed?

- Ymgeisiwyd am ystod amrywiol o orchmynion mewn ceisiadau ansafonol, gan gynnwys trefniadau plentyn, gwarcheidiaeth arbennig, mabwysiadu, cyfrifoldeb rhieni a gorchmynion rhieni (benthyg croth).
- Roedd y rhan fwyaf o geisiadau yng Nghymru a Lloegr – 56% a 59% yn ôl eu trefn – ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn (CAO). Roedd cyfran fwy o geisiadau CAO yn Lloegr ar gyfer gorchymyn 'byw gyda' o gymharu â cheisiadau safonol.[5]
- Ymgeisiwyd am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig mewn 7.9% o geisiadau yn Lloegr a 6.0% yng Nghymru.
- Roedd 5.7% o geisiadau yn Lloegr a 2.3% yng Nghymru ar gyfer gorchymyn rhieni (achosion benthyg croth).
- Yng Nghymru, roedd 16% o geisiadau ar gyfer mabwysiadu, a wnaed gan lys-rieni yn bennaf.
- Roedd 5.2% o geisiadau yn Lloegr a 2.2% yng Nghymru ar gyfer gorchymyn cyfrifoldeb rhieni.

5 Nid yw'r gwahaniaeth rhwng 'treulio amser gyda' a 'byw gyda' yn cael ei gofnodi yn nata gweinyddol Cafcass Cymru.

## Pwy oedd y bobl nad oeddent yn rhieni a oedd yn gysylltiedig?

- Roedd ystod amrywiol o bobl nad oeddent yn rhieni yn gysylltiedig, gan gynnwys neiniau a theidiau a pherthnasau eraill, llys-rieni, gofalwyr maeth, gwarcheidwaid arbennig a rhieni bwriadedig. Roedd neiniau a theidiau'n cyfrif am 58% o'r holl bobl nad oeddent yn rhieni a oedd yn gysylltiedig yn Lloegr a 63% yng Nghymru.
- Roedd tua chwarter o'r ymgeiswyr a'r ymatebwyr nad oeddent yn rhieni dros 60 oed, a menywod oeddent yn bennaf.
- Roedd nifer anghymesur o geisiadau'n ymwneud ag unigolion a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwy difreintiedig o Gymru a Lloegr. Roedd hyn i raddau mwy na cheisiadau cyfraith breifat safonol lle mae unigolion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig eisoes wedi'u gorgynrychioli.
- Yn gyffredinol, roedd oedolion o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn Lloegr yn llai tebygol o ymwneud â cheisiadau ansafonol na cheisiadau safonol, er bod lefelau data coll yn atal dadansoddiad manylach.[6]

## Beth ydym ni'n ei wybod am y plant dan sylw?


- Roedd oddeutu tri chwarter (72%) o'r ceisiadau ansafonol yn ymwneud â phlentyn unigol – cyfran fwy nag mewn ceisiadau safonol (59%).
- Mewn ceisiadau safonol ac ansafonol yng Nghymru a Lloegr, roedd hanner y plant yn ferched.
- Ar gyfartaledd, roedd y plant mewn ceisiadau ansafonol ychydig yn hŷn na'r rhai hynny mewn ceisiadau safonol, ac roedd cyfran fwy dros 10 mlwydd oed.
- Nid ydym yn gallu adrodd yn ddibynadwy ar amrywiaeth ethnig plant o ganlyniad i lefelau uchel o ddata coll yn nata gweinyddol Cafcass a'r ffaith nad oes data ethnigrwydd ar gael yng nghofnodion Cafcass Cymru.

## Pwy sy'n ymgeisio am ba orchmynion?

- Mae Ffigur 1 yn amlinellu'r gwahanol fathau o orchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt o fewn ceisiadau ansafonol yn Lloegr, a phwy ymgeisiodd amdanynt.


6 Nid oedd gwybodaeth am ethnigrwydd ar gael ar gyfer Cymru trwy ddata gweinyddol Cafcass Cymru.

**Ffigur 1: Pwy sy'n ymgeisio am ba orchmynion yn Lloegr?**



Gwelwyd darlun tebyg yng Nghymru, er nad oes modd gwahaniaethu rhwng ceisiadau CAO 'byw gyda' a 'threulio amser gyda'. Roedd nifer fawr o geisiadau mabwysiadu hefyd, na chofnodwyd mewn achosion cyfraith breifat yn Lloegr.

**Ffigur 2: Pwy sy'n ymgeisio am ba orchmynion yng Nghymru?**



### Adroddiadau proffesiynol ac ymchwiliadau

- Yn Lloegr, roedd llai na hanner y ceisiadau ansafonol mewn achos a oedd yn cynnwys adroddiad adran 7, adroddiad adran 37, neu benodi gwarcheidwad o dan reol 16.4.[7] Mae'r rhain yn ddangosyddion pryderon lles posibl, ac ymgysylltiad a chyfranogiad y plentyn, a thybir yn aml eu bod yn awgrymu bod achosion yn fwy cymhleth. Yn gyffredinol, gorchmynnwyd yr adroddiadau a'r ymchwiliadau hyn yn llai mewn achosion ansafonol nag mewn achosion safonol (45% o gymharu â 52%). Pan oedd aelodau o'r teulu estynedig yn gwneud cais am orchymyn 'byw gyda', roedd un neu fwy o'r dangosyddion hyn yn bresennol mewn 38% yn unig o achosion.

- Yn gyffredinol, roedd adroddiad lles adran 7 wedi cael ei orchymyn mewn cyfran is o geisiadau ansafonol (36% o gymharu â 47%), er bod mwy wedi cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (14% o gymharu â 10%).

- Roedd cyfran fwy o geisiadau ansafonol mewn achosion lle y penodwyd gwarcheidwad i gynrychioli buddiannau'r plentyn yn annibynnol (8.8% o gymharu â 5.0%).

## Myfyrdodau

- Mae'r gwaith ymchwil wedi disgrifio pwy yw'r unigolion sy'n ymwneud â'r '10% arall' hwn o geisiadau cyfraith breifat, gan gyfleu darlun amrywiol. Er bod y mwyafrif yn neiniau a theidiau, amlygwyd perthnasau eraill, llys-rieni, a rhieni bwriadedig (mewn achosion benthyg croth) hefyd, ochr yn ochr â rhieni. Yn gyffredinol, roedd pobl nad oeddent yn rhieni yn tueddu i fod yn hŷn ac yn llai ethnig amrywiol na rhieni mewn ceisiadau safonol, ac roedd cyfrannau mwy ohonynt yn fenywod ac yn byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae lefelau uchel o ddata coll ar gyfer rhai grwpiau yn atal dadansoddiad manylach.

- Roedd cyffredinrwydd ceisiadau ansafonol yn amrywio'n rhanbarthol yn Lloegr, gyda chyfraddau uwch yn Swydd Efrog a Gogledd-ddwyrain Lloegr, a chyfraddau is yn Llundain. Gallai lefelau amddifadedd uwch fod yn un sbardun posibl ond mae angen gwerthuso ffactorau eraill ymhellach – gan gynnwys i ba raddau y mae cyfryngu, cyngor cyfreithiol a gwasanaethau cymorth eraill ar gael. Mae angen archwilio'r amrywiadau hyn yn fanylach, gan gynnwys yn ôl ardal awdurdod lleol ac ardal llys, i ddatgelu unrhyw wahaniaethau posibl mewn arferion lleol.

7 Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn gwneud gwaith i archwilio, o fewn data gweinyddol Cafcass Cymru, presenoldeb adroddiadau ac ymchwiliadau a orchmynnwyd gan y llys sy'n dangos pryderon lles ac y gallai dymuniadau a theimladau'r plant fod wedi cael eu ceisio'n uniongyrchol.

- Mae elfen o lawer o'r achosion yn gorgyffwrdd â chyfraith gyhoeddus. Roedd amgylchiadau tua dwy ran o bump o achosion (38%) yn awgrymu eu bod yn perthyn i'r grŵp hwn, ac roedd amgylchiadau dwy ran o bump arall (37%) yn dangos posibilrwydd o hynny, ond mae'n anodd pennu hyn heb wybodaeth ychwanegol. Achosion yw'r rhain lle y gofynnir i'r llys wneud gorchmynion i gadarnhau trefniadau lle mae'n ymddangos bod plant yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu rhieni. Er bod yr achosion hyn yn cael eu trin fel cyfraith breifat, gallai pryderon amddiffyn plant fodoli yn y cefndir. O ystyried bod hyn yn cynrychioli nifer sylweddol o deuluoedd bob blwyddyn, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i effaith trin achosion yn y system cyfraith breifat yn hytrach na'r system cyfraith gyhoeddus – gan gynnwys p'un a yw'r plentyn yn cael ei gynrychioli'n awtomatig, lefel y craffu, cymhwysedd yr oedolion dan sylw i gael cymorth cyfreithiol, ac, o bosibl, pa gymorth tymor hir a gynigir i blant a'u teuluoedd. Nid oes llwybr clir ar gyfer yr achosion hyn trwy'r llysoedd ar hyn o bryd, y mae angen ei ystyried o gofio'r gwahaniaethau ag achosion cyfraith breifat safonol.

- Mae angen deall mwy ynglŷn â phryd y gallai awdurdodau lleol gefnogi teuluoedd estynedig i wneud cais preifat i blentyn fyw gyda nhw, yn hytrach na chychwyn achos gofal, a sut a pham y gallai hyn amrywio. Mae angen archwilio ymhellach y gwahaniaeth rhwng amrywiaeth ethnig pobl nad ydynt yn rhieni o gymharu â rhieni mewn achosion cyfraith breifat safonol ac achosion cyfraith gyhoeddus yn y cyd-destun hwn.

- Roedd y dulliau arferol a ddefnyddir gan y llysoedd i archwilio pryderon lles a galluogi llais y plentyn i gael ei glywed mewn achosion cyfraith breifat yn llai amlwg mewn achosion ansafonol nag achosion safonol. Er y gellid esbonio hyn i ryw raddau gan yr adroddiadau penodol a ddefnyddir mewn achosion gwarcheidiaeth arbennig a benthyg croth, mae'n werth ei archwilio ymhellach o hyd (yn enwedig o ystyried y nifer fawr o achosion CAO yn y garfan). Byddai ymwneud gan bobl nad ydynt yn rhieni yn awgrymu ystyriaethau lles mwy cymhleth, yn enwedig mewn achosion lle y gofynnir i'r llys wneud gorchmynion sy'n cadarnhau trefniadau sy'n golygu bod plant yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu rhieni. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil i ddeall rôl awdurdodau lleol, y wybodaeth maen nhw'n ei chofnodi, a phrofiadau'r rhai sy'n gysylltiedig.

- Mae'r gwaith ymchwil hefyd wedi amlygu'r angen am ddata mwy cadarn a gwell cofnodi gweinyddol – er enghraifft y perthnasoedd rhwng oedolion a phlant – fel y gellir cael darlun cywir o amgylchiadau teulu. Byddai cofnodi ethnigrwydd unigolion yn systematig yn golygu y gellid dadansoddi unrhyw amrywiadau'n fwy cadarn. Roedd oedolion ethnig leiafrifol, yn enwedig rhai nad oeddent yn rhieni, yn llai tebygol o ymddangos mewn ceisiadau cyfraith breifat ansafonol na cheisiadau safonol yn gyffredinol, ond roedd lefelau uchel o ddata coll ar gyfer rhai grwpiau yn atal archwilio ymhellach.


- Mae'r rhaglen ddiwygio bresennol yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar brofiadau ac anghenion rhieni sy'n gwahanu. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn amlygu'r nifer sylweddol o achosion sydd y tu allan i hyn, a'r angen i ddiwygiadau yn y dyfodol ymgysylltu'n briodol â'r amgylchiadau amgen hyn, lle y gallai fod lefelau uchel o angen a chymhlethdod.

# Cyflwyniad

Mae ceisiadau cyfraith teulu breifat yn cael eu sbarduno gan benderfyniadau unigolion preifat, pan nad yw'r rhieni (neu ofalwyr eraill neu aelodau o'r teulu estynedig) yn gallu cytuno ar drefniadau ar gyfer plant. Mae hyn yn wahanol i achosion cyfraith gyhoeddus (neu amddiffyn plant), sy'n deillio o ymyrraeth y wladwriaeth trwy awdurdodau lleol, pan amlygir bod plant mewn perygl o gael niwed. Mae'r sylfaen dystiolaeth i lywio polisi ac ymarfer yn llai datblygedig o lawer ar gyfer cyfraith breifat na chyfraith gyhoeddus, er bod dros deirgwaith cymaint o achosion cyfraith breifat yn dechrau yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn nag achosion cyfraith gyhoeddus. Yn 2021, roedd 54,600 o achosion cyfraith breifat newydd, yn ymwneud â bron 84,000 o blant, o gymharu ag 16,400 o achosion cyfraith gyhoeddus yn ymwneud â 27,100 o blant (Y Weinydiaeth Gyfiawnder (MoJ) 2022a). Mae'r gyfres o adroddiadau Datgelu Cyfraith Teulu Breifat gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, a ariennir gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield – yn ceisio unioni'r anghydbwysedd hwnnw.[8]

Canfu ein gwaith ymchwil blaenorol (Cusworth et al. 2020; Cusworth et al. 2021a) fod oddeutu 90% o'r ceisiadau cyfraith teulu breifat a wnaed yng Nghymru a Lloegr rhwng 2010/11 a 2019/20 rhwng dau riant, gan fynd ymlaen i ddisgrifio nodweddion y ceisiadau 'safonol' hyn a'r unigolion dan sylw. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar 'y 10% arall', sef y ceisiadau cyfraith breifat 'ansafonol' hynny sy'n ymwneud ag un neu fwy o bobl nad ydynt yn rhieni, fel ymgeisydd a/neu ymatebydd. Mae pobl nad ydynt yn rhieni yn cynnwys neiniau a theidiau ac aelodau eraill o'r teulu estynedig, llys-rieni, gwarcheidwaid arbennig, tadau tybiedig, a rhieni bwriadedig mewn achosion benthyg croth.

### Mathau o berthnasoedd nad ydynt yn rhieni




8 Trwy ddadansoddi data cyfiawnder teuluol gweinyddol, mae'r gyfres hyd yma wedi ystyried pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru a Lloegr (Cusworth et al. 2021a; Cusworth et al. 2020); nodweddion a ffactorau risg oedolion (Cusworth et al. 2021b); anghenion iechyd meddwl plant (Griffiths et al. 2022); a'r hyn y mae'r data'n ei ddweud wrthym am gyfranogiad plant (Hargreaves et al. 2022).

Hyd yn oed cyn y pandemig COVID-19, roedd pwysau dwys yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr, o ganlyniad i niferoedd cynyddol o geisiadau cyfraith breifat ac unigolion yn cynrychioli eu hunain yn y llys (MoJ 2022a).[9] Ysgogodd hyn Lywydd yr Is-adran Deuluoedd i sefydlu'r Gweithgor Cyfraith Breifat (PrLWG) yn 2018, i adolygu gweithrediad y Rhaglen Trefniadau Plentyn (CAP).[10] Ochr yn ochr â hyn, sefydlwyd panel ymholi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) i roi sylw i bryderon hirsefydlog ynglŷn â sut mae'r llys teulu'n mynd i'r afael ag achosion cyfraith breifat pan geir honiadau o gam-drin domestig. Daeth y panel i'r casgliad fod 'materion systematig sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn y canfuwyd eu bod yn effeithio ar sut mae risg i blant ac oedolion yn cael ei hamlygu a'i rheoli' a galwodd am newidiadau mawr (Hunter et al. 2020, tud. 3).

Rydym yn gwybod bod mwyafrif helaeth yr achosion cyfraith teulu breifat rhwng dau riant, a bod gwaith ymchwil blaenorol yn amlygu bod tua hanner yr achosion hyn yn ymwneud â honiadau o gam-drin domestig (Barnett 2020).[11] Felly, mae'n ddealladwy, efallai, bod ymatebion polisi diweddar wedi canolbwyntio ar deuluoedd sy'n gwahanu, heb roi lawer o sylw, neu ddim sylw, i achosion cyfraith breifat sy'n ymwneud â'r teulu estynedig a phobl eraill nad ydynt yn rhieni. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod unrhyw raglen ddiwygio'n ymateb i anghenion holl ddefnyddwyr y llys, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â cheisiadau ansafonol. Er bod rhywfaint o waith ymchwil blaenorol wedi gwahaniaethu rhwng ceisiadau cyfraith breifat sy'n ymwneud â dau riant a'r rhai hynny sy'n ymwneud â phartïon niferus a/neu bobl nad ydynt yn rhieni (Cassidy a Davey 2011; Harding a Newnham 2015), ychydig iawn a wyddys am y ceisiadau ansafonol hyn, yr unigolion dan sylw a'r mathau o orchmynion cyfreithiol y gwneir cais amdanynt. Trwy ddadansoddi data ar lefel y boblogaeth, nod yr adroddiad hwn yw cynyddu ein dealltwriaeth o achosion cyfraith breifat ansafonol yng Nghymru a Lloegr. Amcanion yr astudiaeth oedd:

- ymchwilio i nifer a chyfraddau cyffredinrwydd ceisiadau cyfraith breifat sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni, gan gynnwys amrywiadau rhanbarthol
- disgrifio nodweddion yr oedolion a'r plant dan sylw, o ran oedran, rhywedd, amddifadedd lefel ardal, ac ethnigrwydd
- archwilio presenoldeb adroddiadau ac ymchwiliadau a orchmynnwyd gan y llys sy'n dynodi pryderon lles ac yn galluogi cyfranogiad plant
- gwahaniaethu rhwng y mathau o geisiadau sy'n dod trwy'r llysoedd.

9 Roedd newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO) wedi dileu'r hawl i gael cymorth cyfreithiol ym mhob achos cyfraith breifat newydd, heblaw am rai achosion yn ymwneud â cham-drin domestig. Mae'r rhan fwyaf o ymgyfreithwyr yn cynrychioli eu hunain yn y llys bellach – 54% o ymgeiswyr a 67% o ymatebwyr yn 2021 (MoJ 2022a), gan greu heriau i ymgyfreithwyr a'r llysoedd (Trinder et al. 2014; Maclean ac Eekelaar 2019).

10 Mae'r CAP, a sefydlwyd yn 2014, yn cynnwys pob cais am drefniadau plentyn a wneir o dan Adran 8 Deddf Plant 1989. Er bod rhai ceisiadau yn ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni wedi'u cynnwys yn y CAP, nid yw hynny'n wir am bob un, fel benthyg croth a mabwysiadu (https://www.justice.gov.uk/downloads/family-justice-reform/pd-12b-cap.pdf).

11 Roedd cyffredinrwydd cam-drin domestig mewn samplau o achosion trefniadau plentyn/cyswllt yn yr astudiaethau a adolygwyd gan Barnett 2020 yn amrywio o 49% i 62%.

**Mathau o geisiadau o fewn cyfraith breifat ansafonol**

Mae nifer o wahanol fathau o orchmynion y gellir ymgeisio amdanynt o fewn achosion cyfraith breifat ansafonol. Mae rhagor o fanylion a'r fframwaith cyfreithiol perthnasol ar gael yn Atodiad B.

- Gellir gwneud cais am **orchymyn trefniadau plentyn** (CAO) i reoleiddio trefniadau sy'n ymwneud â ble y dylai plentyn fyw a phwy y dylai dreulio amser gydag ef neu gael cysylltiad ag ef fel arall. Gall cais am CAO gael ei wneud gan riant (gan gynnwys tad heb gyfrifoldeb rhieni), llys-riant (priod neu bartner sifil rhiant), gwarcheidwad neu warcheidwad arbennig, a phobl eraill â chyfrifoldeb rhieni. Nid oes gan bobl eraill, gan gynnwys gofalwyr maeth yr awdurdod lleol, neiniau a theidiau a pherthnasau eraill, hawl awtomatig i wneud cais oni bai bod y plentyn wedi bod yn byw gyda nhw am flwyddyn o leiaf, ac mae'n rhaid iddynt geisio caniatâd gan y llys i wneud cais.

- Mae **gorchymyn camau gwaharddedig** yn gwahardd rhywun sydd â chyfrifoldeb rhieni ar gyfer plentyn rhag cymryd cam penodol, fel mynd ag ef dramor heb ganiatâd.

- Gellir gwneud **gorchymyn mater penodol** pan nad yw'r rhieni neu bobl eraill sydd â chyfrifoldeb rhieni yn gallu penderfynu ar fater penodol yn ymwneud â magwraeth plentyn, fel pa ysgol y dylai fynd iddi.

- Pan fydd CAO ar waith ond ni chydymffurfiwyd â'r trefniadau, caiff rhiant neu ofalwr perthnasol arall ofyn i'r llys wneud gorchymyn gorfodi.

- Gellir gwneud cais preifat am **orchymyn cyfrifoldeb rhieni** annibynnol gan dad nad oes ganddo gyfrifoldeb rhieni (o dan adran 4(1)(a) Deddf Plant 1989), ail riant benywaidd plentyn (o dan adran 42 neu 43 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008) neu briod neu bartner sifil rhiant sydd â chyfrifoldeb rhieni.

- Gall priod, partner sifil ac, mewn rhai achosion, y sawl sy'n cyd-fyw â rhiant geni wneud cais i fabwysiadu plentyn sydd wedi byw gyda nhw am chwe mis o leiaf. Os gwneir **gorchymyn mabwysiadu**, mae hyn yn terfynu cyfrifoldeb rhieni a thadolaeth neu famolaeth gyfreithiol y rhiant geni arall, ac mae'r llys-riant yn eu disodli'n gyfreithiol fel rhiant y plentyn.

- Mae **gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig** (SGO) yn rhoi cyfrifoldeb rhieni ar gyfer plentyn i un neu fwy o unigolion, sef aelodau o'r teulu neu ofalwyr maeth blaenorol fel arfer, tan i'r plentyn gyrraedd 18 oed. Er bod gwneud SGO yn galluogi'r sawl sy'n dal y gorchymyn i arfer y cyfrifoldeb hwnnw 'ac eithrio pob un arall', mae'r cysylltiad cyfreithiol sylfaenol rhwng y plentyn a'i rieni geni yn cael ei warchod ac maen nhw'n cadw cyfrifoldeb rhieni.

- Mae benthyg croth yn drefniant lle mae menyw (y sawl sy'n benthyg croth) yn dod yn feichiog gyda phlentyn a allai fod yn perthyn iddi'n enetig, neu beidio, ac yn rhoi genedigaeth i'r plentyn ar ran teulu arall (y rhiant/rhieni bwriadedig). O dan gyfraith bresennol y Deyrnas Unedig, y sawl sy'n benthyg croth (a'i gŵr, os yw'n briod) yw rhiant cyfreithiol y plentyn ar adeg ei eni, ac mae'n rhaid i'r rhiant/rhieni bwriadedig wneud cais am **orchymyn rhieni** i gael tadolaeth a mamolaeth gyfreithiol a chyfrifoldeb rhieni.

- Mae nifer o **orchmynion eraill** y gellir gwneud cais amdanynt o fewn cyfraith teulu breifat, gan gynnwys ceisiadau am ddatganiad ynglŷn â ph'un a yw unigolyn a enwyd yn rhiant plentyn, sy'n golygu y gellir ailgofrestru genedigaeth y plentyn gyda manylion y rhiant hwnnw ond nid yw'n darparu cyfrifoldeb rhieni (datgan o bwy yw'r rhieni); ceisiadau i amrywio, rhyddhau neu ddirymu gorchymyn presennol; a cheisiadau i geisio caniatâd gan y llys i wneud cais am orchymyn (os nad oes caniatâd awtomatig i wneud hynny).

# Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ddadansoddi data gweinyddol dienw ar lefel y boblogaeth a gesglir ac a gynhelir gan Cafcass a Cafcass Cymru (gweler Bedston et al. 2020 a Johnson et al. 2020 am ragor o wybodaeth am ddata Cafcass a Cafcass Cymru, yn ôl eu trefn), a gyrchwyd trwy'r Banc Data SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) (Ford et al. 2009; Jones et al. 2014; Jones et al. 2020).

Cafodd ffigurau ar lefel y boblogaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn Lloegr o amcangyfrifon teuluoedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS 2022) a'r Mynegai Amddifadedd Lluosog (IMD), eu huno â chofnodion Cafcass, ac unwyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) â chofnodion Cafcass Cymru. Priodolwyd cwintelau amddifadedd[12] i bob ymgeisydd ac ymatebydd trwy'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOA)[13] lle'r oeddent yn byw ar adeg y cais.

Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys yr holl geisiadau cyfraith breifat o fewn achos cyfraith breifat (fel y'i diffinnir gan Cafcass neu Cafcass Cymru), a gychwynnwyd yng Nghymru a Lloegr rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2021,[14] ac a oedd yn cynnwys o leiaf un ymgeisydd, un ymatebydd ac un testun.[15] Categoreiddiwyd ceisiadau naill ai'n 'safonol' (rhwng dau riant) neu'n 'ansafonol' (yn ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni fel ymgeisydd/ymgeiswyr a/neu ymatebydd/ymatebwyr) yn seiliedig ar y perthnasoedd rhwng yr oedolion (yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr) a'r plentyn (testun) (ieuengaf). Gwnaethom hefyd greu carfan cyfraith gyhoeddus, er mwyn cyfrifo nifer gymharol y ceisiadau ar gyfer gorchymyn gofal neu oruchwylio yng Nghymru a Lloegr ar draws yr un cyfnod o bedair blynedd.

12 Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio fersiwn 2019 yr IMD a'r WIMD, gan gategoreiddio'r rhengoedd yn bum grŵp cyfartal i gael cwintelau, o 1 – y mwyaf difreintiedig i 5 – y lleiaf difreintiedig.

13 Mae Cafcass, yn wahanol i Cafcass Cymru, yn darparu codau LSOA yn uniongyrchol i'r Banc Data SAIL. Felly, cysylltwyd cofnodion Cafcass Cymru â Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDSD) trwy faes cyswllt dienw (ALF) i gael LSOA unigolyn. Disgrifir methodoleg SAIL ar gyfer cysylltu gwybodaeth a'i gwneud yn ddienw mewn man arall (Lyons et al. 2009).

14 Defnyddiwyd carfan gyfunol pedair blynedd i allu dadansoddi data'n fanylach nag a fyddai'n bosibl fel arall o ganlyniad i'r niferoedd bach. Oherwydd bod llawer o ddata perthnasoedd ar goll o flynyddoedd cynharach, mae'r dadansoddiad wedi'i gyfyngu i 2017/18 ymlaen. Mae Tablau A.3 ac A.4 yn Atodiad A yn rhoi manylion cyfran y data perthnasoedd sydd ar goll yn ôl blwyddyn gyllidol.

15 Cafodd ceisiadau rhwng un ymgeisydd ac un ymatebydd â pherthynas 'anhysbys' rhwng un neu fwy o oedolion a'r plentyn (testun) ieuengaf eu heithrio o'r garfan oherwydd ni ellid pennu eu statws safonol neu ansafonol. Digwyddodd hyn mewn 1.4% a 3.4% o'r ceisiadau yn Cafcass a Cafcass Cymru, yn ôl eu trefn.

Dylid bod yn ofalus wrth gymharu rhwng Cymru a Lloegr o ganlyniad i wahaniaethau mewn arferion cofnodi, felly mae'r data o'r ddwy wlad yn cael eu dadansoddi a'u trafod ar wahân.[16] Ni ellir cymharu'r ffigurau a nodir yma yn uniongyrchol â ffigurau a adroddwyd gan Cafcass, Cafcass Cymru neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) am nifer o resymau, gan gynnwys gwahaniaethau mewn strwythuro data, uned ddadansoddi a glanhau data.[17]

Ar gyfer Cymru a Lloegr, gwnaethom ddadansoddi nifer y ceisiadau ansafonol o fewn y cyfnod pedair blynedd. Gwnaethom hefyd gyfrifo cyfraddau cyffredinrwydd,[18] a fynegir fel nifer y ceisiadau cyfraith breifat ansafonol fesul 10,000 o deuluoedd â phlant dibynnol yn y boblogaeth (ONS 2022), ar gyfer Cymru a Lloegr, ac ar draws naw rhanbarth Lloegr.[19]

Amlygwyd a chymharwyd y mathau o orchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt mewn ceisiadau ansafonol a safonol. Gwnaethom ddadansoddi nodweddion yr oedolion (ymgeiswyr ac ymatebwyr) a'r plant (testunau) a oedd yn ymwneud â cheisiadau ansafonol, gan ymchwilio p'un a ydynt yn wahanol i nodweddion unigolion mewn ceisiadau safonol.[20] Ar gyfer oedolion, gwnaethom nodi manylion: p'un a oeddent yn ymgeisydd neu'n ymatebydd a oedd yn rhiant neu'n unigolyn nad oedd yn rhiant; eu perthynas â'r plentyn ieuengaf; eu rhywedd; eu hoedran; eu hethnigrwydd; ac amddifadedd lefel ardal.[21] Ar gyfer plant, gwnaethom nodi manylion eu rhywedd a'u hoedran.

Yn Lloegr, gwnaethom hefyd archwilio presenoldeb adroddiadau ac ymchwiliadau a orchmynnwyd gan y llys fel dangosyddion pryderon lles posibl ac ymgysylltiad a chyfranogiad y plentyn. Gwnaethom ystyried p'un a orchmynnwyd adroddiad lles adran 7 (gan Cafcass neu'r awdurdod lleol), p'un a orchmynnwyd adroddiad adran 37,

16 Er enghraifft, er bod gorchymyn trefniadau plentyn (CAO) unigol wedi cael ei gyflwyno gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 yng Nghymru a Lloegr, gellir nodi p'un a yw'n CAO 'byw gyda' neu 'dreulio amser gyda'. Er bod Cafcass wedi cofnodi'r gwahaniaeth hwn yn gyson, nid oedd Cafcass Cymru wedi gwneud hynny tan 2020. Hefyd, yn Lloegr, canfuom fod ceisiadau mabwysiadu heblaw gan asiantaeth yn cael eu cofnodi fel achosion cyfraith gyhoeddus yn aml, ac felly ni chawsant eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Mae hyn yn wahanol i Gymru, lle mae ceisiadau mabwysiadu heblaw gan asiantaeth yn cael eu cofnodi fel achosion cyfraith breifat.

17 Mae Ystadegau Llys Teulu Cafcass a'r MoJ yn dangos tueddiadau tebyg ar gyfer 2018–2020, ond mae ffigurau'r MoJ 11% yn uwch ar gyfartaledd, gan gynyddu i 15% yn uwch yn 2021 (gweler MoJ 2022a i gael rhagor o fanylion).

18 Mae'r cyfraddau cyffredinrwydd a ddarparwyd yn gyfartaleddau o'r cyfraddau blynyddol yn ystod y cyfnod pedair blynedd.

19 Naw rhanbarth Lloegr yw'r Gogledd-ddwyrain, y Gogledd-orllewin, Swydd Efrog a'r Humber, Dwyrain y Canolbarth, Gorllewin y Canolbarth, Dwyrain Lloegr, Llundain, y De-ddwyrain, a'r De-orllewin.

20 Gallai unigolyn fod yn ymwneud â mwy nag un cais yn ystod y cyfnod pedair blynedd hwn. Fel y cyfryw, byddant yn cyfrannu arsylwadau lluosog ond efallai gwahanol, oherwydd gallai nodweddion demograffig ac achos newid rhwng ceisiadau.

21 Rydym yn defnyddio 5 categori ethnigrwydd yr ONS: Gwyn; Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig; Asiaidd, Asiaidd Prydeinig; Cymysg neu grwpiau ethnig lluosog; Grŵp ethnig arall. Ystyrir ethnigrwydd ar gyfer Lloegr yn unig gan nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi'n systematig yn nata gweinyddol Cafcass Cymru rhwng 2017/18 a 2020/21 (gweler North et al. 2022).

a/neu b'un a wnaed penodiad rheol 16.4 yn yr achos yr oedd y cais yn rhan ohono, o fewn 12 mis o ddechrau'r achos (gweler Hargreaves et al. 2022 am ragor o wybodaeth am yr arwyddion hyn, gan gynnwys eu cyfyngiadau).

Yn olaf, gwnaethom ystyried, ar sail y gorchymyn cyfreithiol yr ymgeisiwyd amdano a pherthynas yr oedolion â'r plentyn ieuengaf, gwahanol fathau o geisiadau cyfraith breifat ansafonol a'u hamlder. Ar gyfer pob grŵp, lle'r oedd ffigurau'n anddatgelol ac yn gyflawn ar gyfer dros 90% o'r cofnodion, gwnaethom archwilio presenoldeb pryderon lles a nodweddion y rhai hynny a oedd yn gysylltiedig.

## Cryfderau a chyfyngiadau'r astudiaeth

Dyma'r astudiaeth gyntaf ar lefel y boblogaeth i archwilio ceisiadau cyfraith breifat ansafonol yng Nghymru a Lloegr, gan ddefnyddio data a gesglir fel mater o drefn gan Cafcass a Cafcass Cymru. Mae'n archwilio amrywiaeth ceisiadau a'r unigolion dan sylw, gan alluogi dealltwriaeth well o amgylchiadau ac anghenion y grŵp hwn, a chynyddu'r sylfaen dystiolaeth i lywio polisi ac ymarfer.

Fodd bynnag, cydnabyddwn y cyfyngiadau canlynol.

- Mae astudiaethau wedi'u seilio ar ddata gweinyddol wedi'u cyfyngu o reidrwydd gan gwmpas ac ansawdd y data sydd ar gael, a gesglir yn bennaf at ddibenion trefnu a rheoli yn hytrach nag ymchwil.
- Mae'r astudiaeth hon yn adrodd ar orchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt, nid gorchmynion a wnaed ar ddiwedd achos, a allai fod yn wahanol am nifer o resymau, gan gynnwys tynnu'r cais yn ôl, dim gorchymyn, neu wneud gorchymyn gwahanol. Mae cronfa ddata Cafcass a Cafcass Cymru yn cofnodi gwybodaeth tra'u bod yn ymwneud ag achos, ac o ran achosion cyfraith breifat mae hynny'n aml yn dod i ben cyn y gwyddys canlyniad yr achos.
- Yn yr astudiaeth hon, rydym ond yn archwilio ceisiadau cyfraith breifat a wnaed o fewn achosion a nodwyd yn achosion cyfraith breifat o fewn cofnodion gweinyddol Cafcass a Cafcass Cymru. Fel y cyfryw, bydd ceisiadau cyfraith breifat a gychwynnwyd o fewn achos cyfraith gyhoeddus yn cael eu colli. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i orchmynion gwarcheidiaeth arbennig, gan fod mwyafrif ohonynt yn cael eu gwneud o fewn achosion gofal erbyn hyn, heb gais cyfraith breifat.
- Mae statws perthnasoedd oedolion wedi'i seilio ar y berthynas â'r plentyn ieuengaf yn unig. O ganlyniad, mae'n bosibl y gallai rhai ceisiadau yn y grŵp ceisiadau safonol gynnwys ymgeisydd ac ymatebydd a gofnodwyd yn rhiant i'r plentyn ieuengaf, ond mae gan un neu'r ddau berthynas wahanol â phlant eraill a restrir ar y cais (h.y. nid ydynt yn rhieni i'r holl blant ar y cais).
- Mae lefel y data sydd ar goll ar gyfer rhai nodweddion, gan gynnwys oedran, perthynas yr oedolyn â'r plentyn, amddifadedd lefel ardal ac ethnigrwydd, yn fwy na 10% ar gyfer rhai grwpiau o unigolion – gan gyfyngu ar ddehongli. Rydym wedi nodi lle mae hyn yn wir.

# Canfyddiadau

Rhwng 2017/18 a 2020/21, gwnaed 249,800 o geisiadau cyfraith teulu breifat yn Lloegr a 13,000 yng Nghymru. Fel y gwelwyd yn ein hadroddiadau cynharach (Cusworth et al. 2020; Cusworth et al. 2021a), roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn – 91% yn y ddwy wlad – rhwng dau riant. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar 'y 10% arall' – ceisiadau cyfraith teulu breifat yn ymwneud ag un neu fwy o bobl nad ydynt yn rhieni fel ymgeisydd a/neu ymatebydd, y cyfeirir atynt isod fel ceisiadau 'ansafonol'.



## Faint o geisiadau ansafonol a wnaed?

### Lloegr

Yn ystod y cyfnod 4 blynedd rhwng 2017/18 a 2020/21, gwnaed 22,000 o geisiadau cyfraith teulu breifat ansafonol yn Lloegr, gyda 5,500 o geisiadau ar gyfartaledd bob blwyddyn.[22] Roedd y ceisiadau hyn yn ymwneud â 13,000 o oedolion unigryw ar gyfartaledd (ymgeiswyr ac ymatebwyr) a 6,000 o blant (testunau) bob blwyddyn.


Er mwyn cymharu, gwnaethom gyfrifo bod 61,800 o geisiadau cyfraith gyhoeddus ar gyfer gorchymyn gofal neu oruchwylio wedi cael eu gwneud yn ystod yr un cyfnod – 15,500 o geisiadau bob blwyddyn ar gyfartaledd. Felly, o ran nifer y ceisiadau i'r llysoedd, mae ceisiadau cyfraith breifat ansafonol yn cynrychioli ychydig dros draean (36%) o geisiadau cyfraith gyhoeddus ar gyfer gorchymyn gofal neu oruchwylio.

Er ei bod yn ddefnyddiol ystyried swm, neu nifer, y ceisiadau cyfraith teulu breifat ansafonol fel arwydd o'r galw ar y system cyfiawnder teuluol, nid yw hyn yn ystyried maint y boblogaeth sylfaenol, nac yn rhoi syniad o gyfran yr holl deuluoedd sy'n gysylltiedig. Felly, gwnaethom gyfrifo 'cyfraddau cyffredinrwydd', gan ofyn faint o geisiadau cyfraith breifat ansafonol a wnaed fesul pob 10,000 o deuluoedd â phlant dibynnol yn Lloegr. Ar gyfartaledd, gwnaed 8.0 o geisiadau cyfraith breifat ansafonol bob blwyddyn rhwng 2017/18 a 2020/21 fesul 10,000 o deuluoedd â phlant dibynnol yn y boblogaeth.

22 Rydym wedi cyflwyno'r dadansoddiad yma ar gyfer y pedair blynedd wedi'u cyfuno. Gellir gweld ffigurau blynyddol yn Nhablau A.1 ac A.2 yn Atodiad A.

I ystyried p'un a oes unrhyw amrywiad rhanbarthol o ran defnyddio cyfraith breifat ansafonol, gwnaethom gyfrifo'r cyfraddau cyffredinrwydd ar gyfer y naw rhanbarth yn Lloegr: Llundain, y De-ddwyrain, y De-orllewin, Gorllewin y Canolbarth, Dwyrain y Canolbarth, Dwyrain Lloegr, Swydd Efrog a'r Humber, y Gogledd-ddwyrain a'r Gogledd-orllewin.

**Ffigur 3: Cyfradd cyffredinrwydd blynyddol cyfartalog y ceisiadau cyfraith breifat ansafonol fesul 10,000 o deuluoedd â phlant dibynnol rhwng 2017/18 a 2020/21, yn ôl rhanbarth (Lloegr)**




Fel mae Ffigur 3 yn dangos, o gymharu â chyfradd genedlaethol o 8.0 o geisiadau cyfraith breifat ansafonol fesul 10,000 o deuluoedd â phlant dibynnol yn y boblogaeth, gwelwyd y gyfradd ranbarthol isaf yn Llundain – 4.7 o geisiadau yn unig fesul 10,000 o deuluoedd. Gwelwyd y cyfraddau uchaf yn y Gogledd-ddwyrain a Swydd Efrog a'r Humber – 10.8 a 10.4 o geisiadau fesul 10,000 o deuluoedd, yn ôl eu trefn. Mae hyn yn batrwm tebyg iawn i hwnnw a welwyd yn flaenorol mewn perthynas â'r holl geisiadau cyfraith breifat (Cusworth et al. 2021a), ac yng nghyfraddau cyffredinrwydd achosion gofal cyfraith gyhoeddus ar gyfer yr holl blant (Harwin et al. 2018) ac ar gyfer babanod newydd-anedig a phlant bach (Broadhurst et al. 2018; Pattinson et al. 2021).

### Cymru

Yn ystod y cyfnod 4 blynedd rhwng 2017/18 a 2020/21, gwnaed cyfanswm o 1,200 o geisiadau cyfraith breifat ansafonol yng Nghymru – sef 300 bob blwyddyn ar gyfartaledd. Roedd tua 400 o blant (testunau) a 900 o oedolion (ymgeiswyr ac ymatebwyr) yn ymwneud â chais ansafonol bob blwyddyn.

Er mwyn cymharu, gwnaethom gyfrifo bod 3,900 o geisiadau cyfraith gyhoeddus ar gyfer gorchymyn gofal neu oruchwylio wedi cael eu gwneud yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod – 1,000 o geisiadau bob blwyddyn ar gyfartaledd. Felly, o ran nifer y ceisiadau i'r llysoedd, mae ceisiadau cyfraith breifat ansafonol yn cynrychioli ychydig yn llai na thraean (31%) o'r ceisiadau ar gyfer gorchymyn gofal neu oruchwylio yng Nghymru.

O ran cyfraddau cyffredinrwydd, ar gyfartaledd bob blwyddyn, gwnaed 8.5 o geisiadau cyfraith breifat ansafonol yng Nghymru fesul 10,000 o deuluoedd â phlant dibynnol yn y boblogaeth.


## Pa geisiadau a wnaed?

Mae nifer o wahanol fathau o orchmynion ar gael o fewn cyfraith teulu breifat ansafonol. Yn yr adran hon, mae pa mor aml yr ymgeisiwyd am orchmynion o fewn ceisiadau ansafonol yn cael ei gymharu â cheisiadau safonol rhwng dau riant. (Mae trafodaeth fanylach ynglŷn â'r gorchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt o fewn ceisiadau safonol yng Nghymru a Lloegr, yn ôl eu trefn, i'w gweld yn Cusworth et al. 2020 a Cusworth et al. 2021a).

### Lloegr

Dangosir y gorchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt mewn ceisiadau cyfraith breifat safonol ac ansafonol a wnaed yn Lloegr rhwng 2017/18 a 2020/21 yn Ffigur 4. Gallwn weld amrywiad sylweddol rhwng y ddau fath o geisiadau. Roedd mwyafrif y ceisiadau ansafonol a safonol ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn (CAO) – 56% a 59% yn ôl eu trefn – er bod y rhai hynny a oedd yn ymwneud â phobl nad oeddent yn rhieni yn fwy tebygol o gynnwys cais am orchymyn 'byw gyda' yn unig (25% o gymharu â 13%), ac yn llai tebygol o gynnwys cais am orchymyn 'treulio amser gyda' (20% o gymharu â 27%) neu orchymyn 'byw gyda' a 'threulio amser gyda' (11% o gymharu â 18%). Gwnaed cyfrannau llai o geisiadau ansafonol ar gyfer gorchymyn mater penodol (SIO) a gorchymyn camau gwaharddedig (PSO).

**Ffigur 4: Cyfran y gorchmynion y gwnaed cais amdanynt rhwng 2017/18 a 2020/21 yn ôl ceisiadau cyfraith breifat safonol ac ansafonol (Lloegr)**




Gwelwyd rhai mathau o orchmynion mewn ceisiadau ansafonol na welir mewn ceisiadau rhwng dau riant – roedd 5.7% o geisiadau ansafonol ar gyfer gorchymyn rhieni a wnaed mewn achosion benthyg croth, ac roedd 7.9% ar gyfer gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig (SGO).[23] Gwelir ceisiadau ar gyfer gorchymyn cyfrifoldeb rhieni (PRO) mewn cyfraith breifat safonol (1.2%), ond yn amlach mewn ceisiadau ansafonol (5.2%). Roedd cyfran fwy o geisiadau ansafonol na cheisiadau safonol ar gyfer gorchymyn arall (3.4%) o gymharu â 0.9%).


## Cymru

Roedd mwyafrif y ceisiadau ansafonol a safonol yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod ar gyfer CAO (59% a 71% yn ôl eu trefn), fel y gellir gweld yn Ffigur 5. Yng Nghymru, nid yw Cafcass Cymru yn cofnodi'r gwahaniaeth rhwng CAO 'treulio amser gyda' a 'byw gyda'.[24]

23 Gorchymyn cyfraith breifat yw SGO, ac fe'i rhoddir gan amlaf bellach pan fydd achos gofal cyfraith gyhoeddus yn cael ei ddatrys. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud gan y llys o dan 'ei gais ei hun' yn hytrach nag o ganlyniad i gais gan unigolyn preifat, felly nid ydynt i'w gweld yma.

24 Yn dilyn ymarfer treialu yn ardal llys Gogledd Cymu, ac yn unol ag argymhelliad o'n gwaith ymchwil blaenorol (Cusworth et al. 2020), mae Cafcass Cymru wedi dechrau cofnodi 'treulio amser gyda' a 'byw gyda' ledled Cymru.

**Ffigur 5: Cyfran y gorchmynion y gwnaed cais amdanynt rhwng 2017/18 a 2020/21 yn ôl ceisiadau cyfraith breifat safonol ac ansafonol (Cymru)**




Roedd cyfrannau uwch o geisiadau safonol na cheisiadau ansafonol ar gyfer PSO, SIO a gorchymyn gorfodi. Fel y gwelwyd yn Lloegr, roedd cyfran fach o geisiadau ansafonol ar gyfer gorchymyn rhieni a wnaed mewn achosion benthyg croth (2.3%) ac SGO (6.0%). Yng Nghymru, roedd 16% o geisiadau ansafonol ar gyfer gorchymyn mabwysiadu.[25]

Yn yr un modd ag yn Lloegr, gwelir ceisiadau ar gyfer PRO mewn ceisiadau cyfraith breifat safonol (0.3%), ond yn amlach mewn ceisiadau ansafonol (2.2%). Mae cyfran fwy o geisiadau ansafonol na cheisiadau safonol ar gyfer gorchymyn o fath arall (1.9% o gymharu â 0.8%).

## Pwy oedd yr unigolion dan sylw?

Mae'r adran hon yn disgrifio nodweddion yr oedolion (ymgeiswyr ac ymatebwyr) a'r plant (testunau) a oedd yn ymwneud â cheisiadau cyfraith breifat ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21, gan wneud cymariaethau ag unigolion a oedd yn ymwneud â cheisiadau safonol.

Mae ceisiadau ansafonol yn ymwneud ag un neu fwy o bobl nad ydynt yn rhieni a gallant gynnwys ymgeiswyr a/neu ymatebwyr lluosog. Trwy ystyried perthynas yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr â'r plentyn (ieuengaf), dechreuwn greu darlun o bwy sy'n gysylltiedig ac amrywiaeth cyfraith breifat ansafonol, fel y dangosir yn Nhabl 1.

25 Yng Nghymru, mae ceisiadau mabwysiadu heblaw gan asiantaeth yn cael eu cofnodi fel achosion cyfraith breifat. Yn Lloegr, canfuom fod ceisiadau mabwysiadu heblaw gan asiantaeth yn cael eu cofnodi'n aml fel achosion cyfraith gyhoeddus, ac felly ni chawsant eu cynnwys yn yr astudiaeth hon.

**Tabl 1: Cyfansoddiad yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr a oedd yn rhieni ac nad oeddent yn rhieni mewn ceisiadau ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Cymru a Lloegr)**

| Ymgeisydd/Ymgeiswyr | Ymatebydd/Ymatebwyr | Lloegr | Cymru |
|---|---|---|---|
| Nid oedd(ent) yn rhiant/rhieni | Rhiant/rhieni | 49.9% | 54.2% |
| Nid oedd(ent) yn rhiant/rhieni | Nid oedd(ent) yn rhiant/rhieni | 1.5% | c |
| Nid oedd(ent) yn rhiant/rhieni | Rhiant/rhieni a rhywun/rhyw rai nad oedd(ent) yn rhiant/rhieni | 2.1% | 2.5% |
| Rhiant/rhieni | Nid oedd(ent) yn rhiant/rhieni | 8.3% | 5.7% |
| Rhiant | Rhiant a rhywun/rhyw rai nad oedd(ent) yn rhieni | 8.6% | 9.9% |
| PRhiant a rhywun/rhyw rai nad oedd(ent) yn rhieni | Rhiant | 9.1% | 6.0% |
| Rhiant/rhieni a rhywun/rhyw rai nad oedd(ent) yn rhieni | Nid oedd(ent) yn rhiant/rhieni | 0.2% | 0.0% |
| Rhiant a rhywun/rhyw rai nad oedd(ent) yn rhieni | Rhiant a rhywun/rhyw rai nad oedd(ent) yn rhieni | 0.5% | c |
| | | | |
| Anhysbys: nid oedd perthynas o leiaf un oedolyn â'r plentyn (ieuengaf) wedi'i chofnodi yn y data gweinyddol | | 19.1% | 20.3% |

Sylwer: mae 'c' yn cyfeirio at ddata wedi'u sensro (lle mae'r cyfrifon crai <5)

Yng Nghymru a Lloegr, roedd tua hanner y ceisiadau ansafonol rhwng ymgeisydd/ymgeiswyr nad oeddent yn rhieni ac ymatebydd/ymatebwyr a oedd yn rhieni, gyda chyfrannau amrywiol o'r mathau eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, mewn un rhan o bump o'r ceisiadau yn Lloegr (19%) a Chymru (20%), na chofnodwyd perthynas o leiaf un oedolyn â'r plentyn yn y data gweinyddol. Mae'r hepgoriad hwn yn bwysig, oherwydd ni allwn greu darlun llawn o bwy sy'n ymwneud â'r ceisiadau hyn. Wrth ddisgrifio'r unigolion isod, mae'r ceisiadau hyn wedi'u heithrio o'r dadansoddiad.

## Lloegr


Gwnaed 245,600 o geisiadau cyfraith breifat yn Lloegr rhwng 2017/18 a 2020/21 (heb gynnwys 4,200 o geisiadau lle'r oedd perthynas un neu fwy o oedolion â'r plentyn (testun) ar goll). Mae'r adran hon yn disgrifio nodweddion yr oedolion a'r plant ar yr adeg y gwnaed y ceisiadau.[26]

### Nodweddion oedolion

Roedd cyfanswm o 509,000 o ymgeiswyr ac ymatebwyr a oedd yn oedolion. Roedd un o bob 10 o'r rhain – 53,500 (11%) – mewn cais ansafonol.

Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr (75%) mewn ceisiadau ansafonol yn bobl nad oeddent yn rhieni, fel y gwelir yn Ffigur 6. Mae'r gwrthwyneb yn wir o ran ymatebwyr, yr oedd pedair rhan o bump (78%) ohonynt yn rhieni.

**Ffigur 6: Cyfran yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr a oedd yn rhieni ac nad oeddent yn rhieni mewn ceisiadau ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Lloegr)**





### Y berthynas â'r plentyn (testun) (ieuengaf)

O ran perthynas pobl nad ydynt yn rhieni â'r plentyn (ieuengaf) yn y cais, roedd mwyafrif yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr yn aelodau o'r teulu estynedig, a'r grŵp mwyaf – 59% o ymgeiswyr nad oeddent yn rhieni a 54% o ymatebwyr nad oeddent yn rhieni – oedd neiniau a theidiau (fel y gwelir yn Ffigur 7). Roedd tua 1 o bob 10 o ymgeiswyr ac ymatebwyr nad oeddent yn rhieni yn llys-rieni (12% a 10% yn ôl eu trefn). Roedd rhai gwahaniaethau rhwng ymgeiswyr ac ymatebwyr. Roedd rhieni bwriadedig (mewn achosion benthyg croth) yn cynrychioli 9.2% o'r holl ymgeiswyr nad oeddent yn rhieni, ond nid oeddent yn bresennol yn y grŵp ymatebwyr. Roedd tua un rhan o bump o'r ymatebwyr nad oeddent yn rhieni (19%) yn warcheidwaid arbennig, o gymharu â 2.6% yn unig o'r ymgeiswyr.

26 Gallai unigolyn fod yn ymwneud â mwy nag un cais yn ystod y cyfnod pedair blynedd hwn, gan felly gyfrannu arsylwadau lluosog, a allai fod yn wahanol, oherwydd gallai nodweddion demograffig (megis oedran), a nodweddion achos (megis rôl) ar gais newid rhwng ceisiadau.


**Ffigur 7: Perthynas yr unigolyn nad oedd yn rhiant â'r plentyn ieuengaf (testun), yn ôl rôl yn y cais rhwng 2017/18 a 2020/21 (Lloegr)**




## Rhywedd

Fel y gwelwyd yn ein dadansoddiad blaenorol (Cusworth et al. 2021a), gwnaed y rhan fwyaf o geisiadau cyfraith breifat safonol (63%) gan dadau, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn famau (Ffigur 8). Ond mewn ceisiadau ansafonol, roedd y dosbarthiad rhywedd yn wahanol. Roedd cyfran uwch o ymgeiswyr ac ymatebwyr – rhieni a phobl nad oeddent yn rhieni – yn fenywod.


**Ffigur 8: Rhywedd yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr mewn ceisiadau safonol ac ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Lloegr)**



## Oedran

Dangosir dosbarthiad oedran yr oedolion mewn ceisiadau safonol ac ansafonol yn Ffigur 9. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a'r ymatebwyr a oedd yn rhieni yn eu 30au, a hwythau'n 36 a 35 oed ar gyfartaledd, yn ôl eu trefn. Roedd oedran cyfartalog yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr a oedd yn rhieni mewn ceisiadau ansafonol yn debyg – 35 a 33 oed yn ôl eu trefn – er bod cyfran uwch o ymgeiswyr ac ymatebwyr iau na 25 oed (10% a 15% o gymharu â 7.3% ac 8.3% o'r rhieni mewn cais safonol). Mewn cyferbyniad, roedd ymgeiswyr ac ymatebwyr nad oeddent yn rhieni yn hŷn, a hwythau'n 50 a 51 oed ar gyfartaledd, yn ôl eu trefn. Roedd bron chwarter yr ymgeiswyr (23%) a'r ymatebwyr (24%) nad oeddent yn rhieni dros 60 oed, sy'n deillio o'r ffaith bod dros hanner yr unigolion hyn yn neiniau a theidiau.


**Ffigur 9: Categori oedran yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr mewn ceisiadau safonol ac ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Lloegr)**




## Ethnigrwydd

Ystyriodd gwaith ymchwil blaenorol gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (Alrouh et al. 2022) amrywiaeth ethnig oedolion a phlant a oedd yn ymwneud ag achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yn Lloegr. Un o ganfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil hwnnw oedd bod unigolion o dras Asiaidd yn cael eu tangynrychioli mewn achosion cyfraith gyhoeddus, ond nid mewn achosion cyfraith breifat, lle'r oedd yr un gyfran ohonynt yn bresennol â'r boblogaeth gyffredinol.

**Ffigur 10: Ethnigrwydd ymgeiswyr ac ymatebwyr mewn ceisiadau safonol ac ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Lloegr)**




Pan gymharwn amrywiaeth ethnig rhieni mewn ceisiadau safonol ag amrywiaeth ethnig rhieni a phobl nad oeddent yn rhieni a oedd yn ymwneud â cheisiadau ansafonol, gwelwn wahaniaethau clir.[27] Er bod 80%–81% o'r rhieni mewn ceisiadau safonol yn Wyn, roedd y gyfran hon yn uwch ar gyfer rhieni mewn ceisiadau ansafonol (84%–87%) a phobl nad oeddent yn rhieni (88%–89%), fel y gwelir yn Ffigur 10. Felly, mae oedolion o leiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o ymddangos mewn ceisiadau cyfraith breifat ansafonol nag mewn ceisiadau safonol.[28] Un esboniad posibl yw bod teuluoedd o leiafrifoedd ethnig yn cael eu tywys trwy'r llwybr cyfraith gyhoeddus neu'n defnyddio trefniadau anffurfiol heb orchmynion cyfreithiol i fynd i'r afael â sefyllfaoedd tebyg. Mae'r dadansoddiad yn codi cwestiynau ynglŷn â ph'un a yw grwpiau gwahanol o deuluoedd yn cael ymatebion gwahanol gan awdurdodau lleol. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil i lwyr ddeall y gwahaniaethau hyn.


27 Mae'n werth nodi bod lefel y data ethnigrwydd a oedd ar goll yn amrywio rhwng grwpiau. O ran rhieni mewn ceisiadau safonol, roedd data ethnigrwydd ar goll ar gyfer 3.1% o ymgeiswyr a 3.5% o ymatebwyr. O ran rhieni mewn ceisiadau ansafonol, roedd data ethnigrwydd ar goll ar gyfer 3.8% o ymgeiswyr a 7.6% o ymatebwyr. O ran pobl nad oeddent yn rhieni mewn ceisiadau ansafonol, roedd data ethnigrwydd ar goll ar gyfer 8.3% o ymgeiswyr a 7.0% o ymatebwyr.

28 Nid yw amcangyfrifon ethnigrwydd cenedlaethol o ystadegau arbrofol 2019 yr ONS (ONS 2021) ar gael yn ôl grŵp oedran ar gyfer Lloegr yn unig, felly nid oes modd cymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

## Amddifadedd lefel ardal

Sefydlodd adroddiadau blaenorol yn y gyfres Datgelu Cyfraith Teulu Breifat gysylltiad clir rhwng amddifadedd a chyfraith breifat yn Lloegr am y tro cyntaf, gan fod ceisiadau safonol yn cael eu gwneud yn anghymesur gan y rhai hynny a oedd yn byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig (Cusworth et al. 2021a). Gwelwn y berthynas honno yma hefyd (Ffigur 11), gan fod 52% o'r ymgeiswyr a'r ymatebwyr a oedd yn rhieni mewn cais safonol yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig. O fewn ceisiadau ansafonol, mae ymgeiswyr sy'n rhieni ac ymatebwyr nad ydynt yn rhieni yn fwy tebygol fyth o fyw mewn ardal ddifreintiedig (59%). Mae ymgeiswyr nad ydynt yn rhieni wedi'u gorgynrychioli mewn ardaloedd difreintiedig hefyd, ond i raddau llai (51%).[29]

**Ffigur 11: Amddifadedd ar lefel ardal ymgeiswyr ac ymatebwyr mewn ceisiadau safonol ac ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Lloegr)**




29 Lefel y data coll yn ymwneud ag amddifadedd ar lefel ardal ar gyfer ymatebwyr sy'n rhieni yw 14%, felly mae ein hyder yn y ffigurau'n gyfyngedig ac ni chânt eu disgrifio.

## Nodweddion plant


Roedd 375,300 o blant (testunau) yn ymwneud â cheisiadau cyfraith breifat a wnaed yn Lloegr rhwng 2017/18 a 2020/21, yr oedd 24,400 (6.5%) ohonynt yn ymwneud â chais ansafonol. Roedd llai na dwy ran o dair (59%) o'r ceisiadau safonol yn ymwneud ag un plentyn (testun), ond roedd hyn yn wir am bron tri chwarter (72%) y ceisiadau ansafonol.

Roedd tua hanner y plant mewn ceisiadau safonol ac ansafonol yn ferched (49%–51%).

Roedd y plant mewn ceisiadau ansafonol ychydig yn hŷn, ar gyfartaledd, na'r rhai hynny mewn ceisiadau safonol – 7.1 mlwydd oed o gymharu â 6.5 mlwydd oed. Dangosir dosbarthiad grŵp oedran y ddau grŵp yn Ffigur 12. Mae'n nodedig bod cyfran uwch o'r plant mewn ceisiadau ansafonol yn iau na blwydd oed (8.3% o gymharu â 4.6%) ac yn 10 mlwydd oed a hŷn (32% o gymharu â 24%).

Mae lefel y data ethnigrwydd sydd ar goll ar gyfer plant ym mhob grŵp yn uwch na 10%, felly ni allwn adrodd yn ddibynadwy ar amrywiaeth ethnig yma.

**Ffigur 12: Categori oedran plant mewn ceisiadau safonol ac ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Lloegr)**



## Cymru


Mae'r adran hon yn disgrifio nodweddion yr oedolion a'r plant a oedd yn ymwneud â'r 12,800 o geisiadau cyfraith breifat a wnaed yng Nghymru yn ystod y cyfnod 4 blynedd (heb gynnwys 250 o geisiadau lle'r oedd perthynas un neu fwy o'r oedolion â'r plentyn (testun) ar goll).[30]

### Nodweddion oedolion

Roedd cyfanswm o 1,600 o ymgeiswyr ac ymatebwyr a oedd yn oedolion. Roedd un mewn deg o'r oedolion hyn (11%) yn ymwneud â chais ansafonol.

Fel y gwelwyd yn Lloegr, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr (78%) mewn ceisiadau ansafonol yn bobl nad oeddent yn rhieni, tra bod 82% o'r ymatebwyr yn rhieni (Ffigur 13).

**Ffigur 13: Cyfran yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr a oedd yn rhieni ac nad oeddent yn rhieni mewn ceisiadau ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Cymru)**





### Y berthynas â'r plentyn (testun) (ieuengaf)

Roedd perthynas ymgeiswyr ac ymatebwyr nad oeddent yn rhieni â phlant mewn ceisiadau ansafonol yn debyg iawn i'r hyn a welwyd yn Lloegr, oherwydd y cyfrannau uchaf oedd neiniau a theidiau (63%–68%), fel y gwelir yn Ffigur 14. Roedd cyfran uwch o lys-rieni'n gwneud ceisiadau yng Nghymru (20%), a chyfran lai o ymatebwyr gwarcheidiaeth arbennig (13%). Roedd nifer yr unigolion a gofnodwyd yn rhiant bwriadedig yn ddibwys, a chynhwyswyd y rhain yn y categori 'arall' i gynnal cyfrinachedd.

30 Gallai unigolyn fod yn ymwneud â mwy nag un cais yn ystod y cyfnod pedair blynedd hwn, gan felly gyfrannu arsylwadau lluosog, a allai fod yn wahanol, oherwydd gallai nodweddion demograffig (megis oedran), a nodweddion achos (megis rôl) ar gais newid rhwng ceisiadau.

**Ffigur 14: Perthynas yr unigolyn nad oedd yn rhiant â'r plentyn ieuengaf (testun), yn ôl rôl yn y cais rhwng 2017/18 a 2020/21 (Cymru)**





## Rhywedd

Fel y gwelwyd yn Lloegr ac yn ein gwaith ymchwil blaenorol ar gyfer Cymru (Cusworth et al. 2020), roedd gwahaniaeth clir o ran rhywedd yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr mewn ceisiadau cyfraith breifat safonol. Gwnaed y rhan fwyaf o geisiadau cyfraith breifat safonol (67%) gan dadau, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (67%) yn famau (Ffigur 15).

Fodd bynnag, roedd y dosbarthiad rhywedd yn wahanol mewn ceisiadau ansafonol. Roedd cyfran uwch (53%–64%) o'r ymgeiswyr a'r ymatebwyr – rhieni a phobl nad oeddent yn rhieni – yn fenywod.


**Ffigur 15: Rhywedd yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr mewn ceisiadau safonol ac ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Cymru)**



## Oedran

Dangosir dosbarthiad oedran yr oedolion mewn ceisiadau safonol ac ansafonol yng Nghymru yn Ffigur 16. Fel y gwelwyd yn Lloegr, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a'r ymatebwyr a oedd yn rhieni yn eu 30au, a hwythau'n 35 a 34 oed ar gyfartaledd, yn ôl eu trefn. Roedd rhieni a oedd yn ymgeiswyr mewn ceisiadau ansafonol o oedran tebyg – 35 oed.[31] Mewn cyferbyniad, roedd ymgeiswyr ac ymatebwyr nad oeddent yn rhieni yn hŷn, a hwythau'n 50 a 52 oed ar gyfartaledd, yn ôl eu trefn. Roedd chwarter yr ymgeiswyr nad oeddent yn rhieni (25%) a bron traean o'r ymatebwyr (31%) dros 60 oed, sydd unwaith eto'n deillio o'r ffaith bod dros hanner yr unigolion hyn yn neiniau a theidiau.

**Ffigur 16: Dosbarthiad oedran yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr mewn ceisiadau safonol ac ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Cymru)**





## Amddifadedd lefel ardal

Gan ddangos patrwm tebyg i hwnnw yn Lloegr, ac mewn gwaith ymchwil blaenorol yn y gyfres Datgelu Cyfraith Teulu Breifat ar gyfer Cymru (Cusworth et al. 2020), mae ceisiadau cyfraith breifat yn ymwneud yn anghymesur ag oedolion sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig.

31 Lefel y data coll ar gyfer oedran ymatebwyr sy'n rhieni mewn ceisiadau ansafonol yw 14%, felly mae ein hyder yn y ffigurau'n gyfyngedig ac ni chânt eu disgrifio.

**Ffigur 17: Amddifadedd ar lefel ardal ymgeiswyr ac ymatebwyr mewn ceisiadau safonol ac ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Cymru)**




Roedd tua hanner y rhieni mewn ceisiadau safonol, sef ymgeiswyr (52%) ac ymatebwyr (53%), yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig, ac felly hefyd ymgeiswyr nad oeddent yn rhieni mewn ceisiadau ansafonol (53%) (Ffigur 17). Roedd cyfran ychydig yn uwch o'r ymgeiswyr a oedd yn rhieni mewn ceisiadau ansafonol (56%) yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig.[32]

## Nodweddion plant


Roedd 18,700 o blant (testunau) yn ymwneud â cheisiadau cyfraith breifat yng Nghymru rhwng 2017/18 a 2020/21, yr oedd 1,300 (6.7%) ohonynt yn ymwneud â chais ansafonol. Roedd bron dwy ran o dair (63%) o'r ceisiadau safonol yn ymwneud â phlentyn (testun) unigol, tra bod hyn yn wir am fwy na thri chwarter (77%) o'r ceisiadau ansafonol.

Roedd hanner y plant (50%) yn ferched, mewn ceisiadau safonol ac ansafonol.

Yn gyffredinol, yn yr un modd ag yn Lloegr, roedd y plant mewn ceisiadau ansafonol ychydig yn hŷn na'r rhai hynny mewn ceisiadau cyfraith breifat safonol – 7.5 mlwydd oed o gymharu â 6.3 mlwydd oed. Fodd bynnag, er bod cyfran uwch o blant 10 mlwydd oed a hŷn mewn ceisiadau ansafonol (32%) nag mewn ceisiadau safonol (22%), roedd cyfran lai o fabanod iau na blwydd oed (2.9% o gymharu â 4.8%), sef y gwrthwyneb i'r hyn a welwyd yn Lloegr (gweler Ffigur 18).

32 Lefel y data coll yn ymwneud ag amddifadedd yw 18% ar gyfer ymatebwyr sy'n rhieni a 13% ar gyfer ymatebwyr nad ydynt yn rhieni, felly mae ein hyder yn y ffigurau'n gyfyngedig ac ni chânt eu disgrifio.

**Ffigur 18: Dosbarthiad oedran plant mewn ceisiadau safonol ac ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Cymru)**




## Dangosyddion pryderon lles

Mae'r adran hon yn ystyried presenoldeb adroddiadau ac ymchwiliadau a orchmynnwyd gan y llys fel dynodwyr pryderon lles mewn achosion a oedd yn cynnwys ceisiadau safonol ac ansafonol yn Lloegr.[33] Roedd hyn wedi'i seilio ar b'un a oedd adroddiad lles adran 7 (gan Cafcass neu awdurdod lleol), adroddiad adran 37, a/neu benodi gwarcheidwad o dan reol 16.4 wedi'u cofnodi yn y data gweinyddol o fewn 12 mis o ddyddiad dechrau'r achos dymuniadau.[34]

33 Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn gwneud gwaith i archwilio, o fewn data gweinyddol Cafcass Cymru, presenoldeb adroddiadau ac ymchwiliadau a orchmynnwyd gan y llys sy'n dangos pryderon lles ac y gallai dymuniadau a theimladau'r plant fod wedi cael eu ceisio'n uniongyrchol.

34 Gweler Hargreaves et al. 2022 i gael rhagor o wybodaeth am y dynodwyr hyn, gan gynnwys eu cyfyngiadau.

- Adran 7 (Cafcass) – gallai'r llys orchymyn i Cafcass baratoi adroddiad (neu atodiad) adran 7 ar faterion yn ymwneud â lles y plentyn, a fyddai'n cynnwys cyfarfod â'r plentyn, lle y bo'n briodol, yn ôl ei oedran, ei aeddfedrwydd a'i ddymuniadau.


- Adran 7 (awdurdod lleol) – gallai'r llys orchymyn i'r awdurdod lleol baratoi adroddiad adran 7 (fel yr uchod) neu gynnal ymchwiliad ynglŷn ag amgylchiadau plentyn.

- Adran 37 (awdurdod lleol) – gallai'r llys orchymyn i'r awdurdod lleol ystyried p'un ai gwneud cais am orchymyn gofal neu oruchwylio. Mae hyn yn cynnwys ystyried lles y plentyn a ph'un a yw'r plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol neu beidio.

- Rheol 16.4 (penodi gwarcheidwad) – o dan reol 16.2 Rheolau Trefniadeth Teulu 2010, caiff y llys wneud plant yn barti yn yr achos, a bydd gwarcheidwad plentyn yn cael ei benodi o dan reol 16.4 i asesu dymuniadau a theimladau'r plentyn, a'i anghenion lles, yn annibynnol.

Roedd pedwar deg pump y cant o'r ceisiadau ansafonol yn Lloegr mewn achosion ag o leiaf un dangosydd bod pryderon lles ac y gallai dymuniadau a theimladau'r plant fod wedi cael eu ceisio'n uniongyrchol. Roedd hyn ychydig yn is na'r 52% o achosion a oedd yn cynnwys ceisiadau safonol, fel y dangosir yn Ffigur 19.

**Ffigur 19: Cyfran y ceisiadau cyfraith breifat rhwng 2017/18 a 2020/21 a oedd yn ymwneud ag achos ag un neu fwy o ddynodwyr pryderon lles o fewn 12 mis o ddyddiad dechrau'r achos (Lloegr)**




Yn gyffredinol, roedd cyfran is o geisiadau ansafonol na safonol yn ymwneud ag achos lle'r oedd adroddiad adran 7 wedi cael ei orchymyn (36% o gymharu â 47%). Cynhaliodd yr awdurdod lleol ymchwiliadau adran 7 mewn cyfran uwch o geisiadau ansafonol na safonol (14% o gymharu â 10%), er bod Cafcass yn llai tebygol o fod wedi cael cais i ddarparu adroddiad adran 7 mewn achosion a oedd yn ymwneud â chais ansafonol (22% o gymharu â 37%).

Roedd cyfran debyg iawn o geisiadau ansafonol (3.2%) a safonol (3.4%) yn ymwneud ag achosion lle'r oedd y barnwr wedi gorchymyn adroddiad adran 37. Roedd cyfran uwch o geisiadau ansafonol na cheisiadau safonol mewn achos lle y penodwyd gwarcheidwad i gynrychioli buddiannau'r plentyn yn annibynnol (8.8% o gymharu â 5.0%).

O ystyried amgylchiadau llawer o geisiadau ansafonol, fel y rhai hynny a wneir gan aelodau o'r teulu estynedig i blentyn fyw gyda nhw, mae'n annisgwyl braidd nad yw cyfran uwch o'r achosion hyn yn cynnwys ymchwiliadau lles a orchmynnwyd gan y llys neu gynrychiolaeth annibynnol o'r plentyn yn y llys. Mae rhai mathau o geisiadau, fel y rhai hynny ar gyfer SGO neu orchymyn rhieni (mewn achosion benthyg croth) yn gofyn i weithiwr cymdeithasol yr awdurdod lleol neu Cafcass baratoi adroddiad penodol ynglŷn ag amgylchiadau'r achos ac anghenion lles y plentyn. Ni fu'n bosibl ystyried y rhain fel dynodwyr pryderon lles yma, gan nad yw tystiolaeth o adroddiadau o'r fath yn cael ei chofnodi yn nata gweinyddol Cafcass. Fodd bynnag, mae'r mathau hyn o geisiadau yn cynrychioli cyfran fach yn unig o'r holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol – roedd 7.9% ar gyfer SGO a 5.7% ar gyfer gorchymyn rhieni (fel y gwelir yn Ffigur 20).


# Gwahaniaethu rhwng ceisiadau

Yn yr adran hon, ystyriwn y gwahanol fathau o geisiadau cyfraith teulu breifat ansafonol yng Nghymru a Lloegr, yn seiliedig ar y gorchymyn cyfreithiol yr ymgeisiwyd amdano a pherthynas yr oedolion â'r plentyn ieuengaf. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, mae ceisiadau ar gyfer nifer o wahanol fathau o orchymyn yn digwydd o fewn cyfraith teulu breifat ansafonol ac, mewn rhai achosion, mae pwy yw'r ymgeisydd/ymgeiswyr a'r ymatebydd/ymatebwyr yn arwyddocaol iawn. Er enghraifft, mae cais gan fam i dreulio amser gyda phlentyn (CAO 'treulio amser gyda'), lle y gallwn dybio bod y plentyn yn byw gyda nain neu daid a hi yw'r ymatebydd, yn wahanol iawn i gais a wneir gan nain neu daid am CAO 'treulio amser gyda'. Felly, disgrifiwn nifer o grwpiau ac is-grwpiau, gan archwilio nodweddion yr unigolion dan sylw lle y bo'n bosibl a phresenoldeb adroddiadau ac ymchwiliadau a orchmynnwyd gan y llys sy'n awgrymu pryderon lles.

## Lloegr

Roedd dros hanner (56%) yr holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol yn Lloegr o fewn y cyfnod 4 blynedd ar gyfer CAO ('treulio amser gyda' a/neu 'byw gyda'), fel y gwelir yn Ffigur 20. Roedd un rhan o bump arall (18%) ar gyfer SIO neu PSO, ac roedd 3.8% ar gyfer gorfodi. Roedd ceisiadau ar gyfer SGO yn cynrychioli 7.9% o'r holl geisiadau, ac roedd 5.7% ar gyfer gorchymyn rhieni (y gwneir cais amdano mewn achosion benthyg croth), a 5.2% arall ar gyfer PRO. Roedd cyfran fach o geisiadau (3.4%) ar gyfer gorchymyn o fath arall, gan gynnwys datganiad o bwy yw'r rhieni.


**Ffigur 20: Gwahaniaethu rhwng ceisiadau cyfraith breifat ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Lloegr)**



## Ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn

Yn gyffredinol, roedd ceisiadau ar gyfer CAO 'treulio amser gyda' a/neu 'byw gyda' yn cynrychioli mwy na hanner yr holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol yn Lloegr rhwng 2017/18 a 2020/21. Fodd bynnag, pan ystyriwn bwy oedd yr ymgeisydd/ymgeiswyr a'r ymatebydd/ymatebwyr, mae cryn amrywiaeth, ac mae nifer o wahanol grwpiau'n amlwg, fel y gwelir yn Ffigur 21.

**Ffigur 21: Gwahaniaethu rhwng ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn rhwng 2017/18 a 2020/21 (Lloegr)**




### Ceisiadau ar gyfer gorchymyn 'byw gyda' gan aelodau o'r teulu estynedig

Roedd bron un rhan o bump (18%) o'r holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol gan aelodau o'r teulu estynedig ar gyfer gorchymyn 'byw gyda'.[35] Mae hyn yn cynrychioli bron traean (33%) o'r holl geisiadau trefniadau plentyn a oedd yn ymwneud â phobl nad oeddent yn rhieni.

Gwnaed y rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn (75%) gan neiniau a theidiau – un nain neu daid gan mwyaf – a gwnaed un rhan o bump (19%) gan fodryb a/neu ewythr y plentyn, a gwnaed 5.5% gan frawd neu chwaer plentyn.

Ar gyfartaledd, roedd yr ymgeiswyr yn 52 oed, sy'n adlewyrchu'r gyfran uchel a oedd yn neiniau a theidiau. Roedd y mwyafrif (65%) yn fenywod. Nid oes modd adrodd ar amrywiaeth ethnig y grŵp hwn gan fod data ethnigrwydd yn anhysbys neu ar goll o ddata Cafcass ar gyfer mwy nag un rhan o bump o'r ymgeiswyr hyn (22%) – cyfran uwch o lawer nag ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn rhieni yn gyffredinol (8.3%).

35 Rydym wedi cynnwys ceisiadau ar gyfer gorchmynion 'byw gyda' a 'byw gyda a threulio amser gyda' yma.

Mae aelodau o'r teulu estynedig sy'n gwneud cais am orchymyn 'byw gyda' wedi'u gorgynrychioli yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac roeddent yn fwy tebygol o fyw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig nag ymgeiswyr nad oeddent yn rhieni yn gyffredinol (57% o gymharu â 51%).

Roedd llai na dwy ran o bump (38%) o'r ceisiadau hyn gan aelodau o'r teulu estynedig mewn achos lle'r oedd un neu fwy o ddangosyddion bod adroddiad lles (adroddiad adran 7 neu 37) wedi cael ei gynnal, neu fod gwarcheidwad wedi cael ei benodi o dan reol 16.4. Mae'n syndod, ac yn achos pryder i raddau, nad oes adroddiad lles i'w weld yn amlach, o ystyried bod yr achosion hyn yn rhai lle mae pobl nad ydynt yn rhieni yn gofyn i blentyn fyw gyda nhw yn hytrach na'i rieni. Yn gyffredinol, gorchmynnir adroddiadau adran 7 dim ond os oes anghydfod rhwng y partïon, nid pan fo cytundeb ymddangosiadol rhwng aelodau'r teulu ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer plentyn – er enghraifft, pan fydd rhieni ifanc yn cytuno y dylai eu rhieni nhw ofalu am eu plentyn neu lle maen nhw'n teimlo mai eu hunig ddewis yw cytuno â chynlluniau o'r fath.

Gofynnwyd am adroddiad adran 7 gan yr awdurdod lleol mewn un rhan o bump o'r achosion hyn – cyfran uwch nag ar gyfer yr holl achosion ansafonol (20% o gymharu â 14%) – a gallai ymchwiliadau neu adroddiadau eraill na chofnodwyd gan Cafcass fod wedi cael eu cwblhau hefyd. Ni fyddai'r data gweinyddol ychwaith yn nodi pan oedd gweithwyr cymdeithasol yr awdurdod lleol wedi mynd i'r llys i roi cyngor neu gymorth wyneb yn wyneb, neu lle y gallai cyngor ar ble y dylai plentyn fyw fod wedi cael ei gynnwys yn y wybodaeth ddiogelu a roddwyd i Cafcass wrth baratoi'r llythyr diogelu cyn y gwrandawiad cyntaf. Byddai'n ddefnyddiol ymchwilio ymhellach i rôl awdurdodau lleol yn yr achosion hyn a'r wybodaeth ychwanegol a gofnodir ganddynt.

## Ceisiadau a wnaed gan aelodau o'r teulu estynedig ar gyfer gorchymyn 'treulio amser gyda'

Yn ogystal â'r ceisiadau gan aelodau o'r teulu estynedig i blentyn fyw gyda nhw, gwnaed bron 1 o 10 (9.3%) o'r holl geisiadau cyfraith teulu breifat ansafonol gan berthnasau a oedd yn ceisio cael cysylltiad â phlant (CAO 'treulio amser gyda'). Mae hyn yn cynrychioli bron un rhan o bump (17%) o'r holl geisiadau CAO ansafonol a wnaed yn Lloegr rhwng 2017/18 a 2020/21.

Gwnaed bron pob un (94%) o'r ceisiadau hyn gan neiniau a theidiau (yr oedd 4 o 10 ohonynt yn ymgeiswyr unigol), a gwnaed cyfrannau llai gan fodrybedd ac ewythrod (3.6%) neu frawd neu chwaer plentyn (2.5%). Gan adlewyrchu hyn, roedd yr ymgeiswyr yn 56 oed ar gyfartaledd – ychydig yn hŷn nag ymgeiswyr teulu estynedig ar gyfer CAO 'byw gyda'. Yn debyg i'r grŵp hwnnw, roedd dwy ran o dair (65%) yn fenywod. Roedd cyfran lai (46%) – ac eto uchel – yn byw mewn ardaloedd yn y 2 gwintel mwyaf difreintiedig. Mae data ethnigrwydd ar goll ar gyfer 14% o'r grŵp hwn o ymgeiswyr, felly ni ellir adrodd arno.

Roedd bron hanner (45%) y ceisiadau hyn yn rhan o achos lle'r oedd y llys wedi gorchymyn adroddiad lles adran 7 gan Cafcass neu'r awdurdod lleol (o gymharu â 36% o'r ceisiadau ansafonol yn gyffredinol).

### Ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn a wnaed gan rieni

Is-grŵp arall o geisiadau trefniadau plentyn yw'r rhai hynny a wnaed gan rieni lle mae'r ymatebydd/ymatebwyr yn aelodau o'r teulu estynedig neu'n warcheidwad arbennig (y mae llawer ohonynt yn perthyn i'r plentyn hefyd). Yn yr achosion hyn, mae'n debygol y bu pryderon lles blaenorol, sy'n ddigon arwyddocaol i'r plentyn fyw gyda rhywun heblaw am ei rieni.

Mae ceisiadau gan rieni'n cyfrif am 8.5% o'r holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol, sy'n cynrychioli 15% o'r holl geisiadau CAO ansafonol. O fewn cwmpas trefniadau plentyn, roedd hanner y ceisiadau gan rieni (49%) yn cynnwys gorchymyn 'treulio amser gyda', roedd ychydig dros chwarter (29%) yn cynnwys gorchymyn 'byw gyda', ac mewn un rhan o bump o achosion (22%) roedd y rhieni wedi gwneud cais am orchmynion 'byw gyda' a 'threulio amser gyda'.

Dim ond 4.5% o'r ceisiadau hyn a wnaed gan y ddau riant. Gwnaed y mwyafrif (61%) gan famau, a thraean (34%) gan dadau. Roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o fod yn neiniau a theidiau plentyn (66%), a chofnodwyd bod un rhan o bump (20%) yn warcheidwad arbennig y plentyn (y mae llawer ohonynt yn berthynas hefyd), 13% yn fodrybedd neu'n ewythrod, ac 1.4% yn unig yn frawd neu chwaer plentyn.

Roedd rhieni a oedd yn gwneud cais trefniadau plentyn yn 33 oed ar gyfartaledd, ac roedd 84% ohonynt yn Wyn. Roeddent wedi'u gorgynrychioli yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda bron 7 o 10 (68%) yn byw yn y 2 gwintel mwyaf difreintiedig. Mae absenoldeb yr hawl i gael cymorth cyfreithiol mewn achosion cyfraith breifat yn debygol o olygu nad oes gan y grŵp hwn o rieni fynediad digonol at gyngor a chymorth cyfreithiol i lywio cymhlethdod y system cyfiawnder teuluol. Gallai'r ffaith bod ceisiadau o'r fath yn cael eu gwneud i'r llys gan rieni i ddatrys trefniadau ar gyfer plant awgrymu bod teuluoedd wedi cael eu gadael i reoli perthnasoedd cymhleth sy'n pontio'r cenedlaethau heb gymorth digonol yn dilyn achosion blaenorol.

Roedd bron dwy ran o dair (64%) o'r ceisiadau CAO hyn gan rieni mewn achosion lle'r oedd un neu fwy o ddangosyddion bod adroddiad lles (adroddiad adran 7 neu 37) wedi cael ei gynnal, neu fod gwarcheidwad wedi cael ei benodi o dan reol 16.4. Er bod hyn yn uwch o lawer nag mewn ceisiadau cyfraith breifat ansafonol yn gyffredinol (45%), mae'n gyfran annisgwyl o uchel o hyd o ystyried y tebygolrwydd bod pryderon lles blaenorol wedi cyfrannu at y ffaith bod y plentyn yn byw gyda rhywun heblaw ei rieni.

### Ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn gan lys-riant

Roedd ceisiadau ar gyfer CAO gan lys-rieni yn cynrychioli 4.5% o'r holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol yn Lloegr rhwng 2017/18 a 2020/21, ac 8.4% o'r holl geisiadau CAO yn ystod y cyfnod.

Roedd bron hanner (47%) y ceisiadau hyn gan lys-riant ar gyfer gorchymyn 'byw gyda', roedd tua un rhan o bump (21%) ar gyfer gorchymyn 'treulio amser gyda', ac roedd y gweddill (32%) ar gyfer y ddau.

Mewn bron dwy ran o dair o'r achosion lle'r oedd llys-riant yn gwneud cais am CAO (63%), roedd rhiant geni'r plentyn yn ymgeisydd a enwyd hefyd. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n wir mewn traean o'r achosion (37%). Gallai hyn fod yn hepgoriad, neu fe allent fod yn ceisio sicrhau eu perthynas â llys-blentyn a'u cyfrifoldeb rhieni drosto ar ôl gwahanu oddi wrth eu partner, sef rhiant geni'r plentyn.

Roedd ychydig yn llai na hanner (46%) yr ymgeiswyr a oedd yn llys-rieni yn fenywod ac roeddent yn 36 oed, ar gyfartaledd. Yn anffodus, mae lefelau uchel o ddata coll yn golygu nad oes modd adrodd ar amrywiaeth ethnig nac amddifadedd.

Roedd bron hanner (48%) y ceisiadau CAO gan lys-rieni mewn achos a oedd yn cynnwys o leiaf un dangosydd pryderon lles (adroddiad adran 7 neu 37 neu benodi gwarcheidwad rheol 16.4).

### Ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn pan fo'r ymgeisydd/ymgeiswyr a/neu'r ymatebydd/ymatebwyr yn anhysbys

Mewn tua 1 o 10 (11%) o geisiadau cyfraith breifat ansafonol, sy'n cynrychioli un rhan o bump o'r holl geisiadau trefniadau plentyn (20%), roedd perthynas un neu fwy o'r ymgeiswyr a/neu ymatebwyr yn anhysbys, hynny yw, heb ei chofnodi yn nata gweinyddol Cafcass. Bydd adolygu a gwella'r broses o gofnodi data am berthnasoedd yn helpu i sicrhau amcangyfrifon dibynadwy ac ymateb priodol i anghenion gwahanol grwpiau.

### Ceisiadau eraill ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn

Roedd cyfran fach o geisiadau trefniadau plentyn – 7.0% (sy'n cynrychioli 3.9% o'r holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol) – yn cynnwys ymgyfreithwyr eraill, gan gynnwys rhieni mabwysiadol, gwarcheidwaid arbennig a thadau tybiedig.[36]

36 Y term cyfreithiol i ddisgrifio dyn y rhagdybir neu yr honnir ei fod yn dad plentyn.

## Ceisiadau ar gyfer gorchymyn mater penodol neu gamau gwaharddedig

Roedd bron un rhan o bump (18%) o'r holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol yn Lloegr ar gyfer SIO neu PSO. Roedd ychydig yn fwy na hanner o'r rhain (55%) ar gyfer SIO, sy'n penderfynu ar gwestiwn penodol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar gyfrifoldeb rhieni ar gyfer plentyn, fel pa ysgol y dylai fynd iddi. Roedd ceisiadau ar gyfer y PSO 'drych-ddelwedd', y gellir ei roi ar waith i atal unigolyn â chyfrifoldeb rhieni rhag gwneud penderfyniad penodol am fagwraeth plentyn, fel mynd â'r plentyn dramor, yn cynrychioli 45%.

Caiff unrhyw unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhieni ar gyfer plentyn, gan gynnwys, er enghraifft, nain neu daid sydd â gorchymyn trefniadau plentyn 'byw gyda', wneud cais am SIO neu PSO. Roedd aelodau o'r teulu estynedig wedi gwneud cais am bron traean o'r SIOs a'r PSOs – 27% gan neiniau a theidiau, 4.9% gan fodrybedd/ewythrod ac 1.5% gan frodyr neu chwiorydd. Gwnaed un rhan o bump o'r ceisiadau (22%) gan rieni, a gwnaed 17% gan lys-rieni. Roedd perthynas yr ymgeiswyr â'r plentyn yn anhysbys mewn bron chwarter o'r achosion (23%), a gwnaed 6.7% gan unigolion eraill, gan gynnwys gwarcheidwaid arbennig a rhieni mabwysiadol.

Roedd yr ymgeiswyr yn 42 oed ar gyfartaledd, ac roedd dros hanner (57%) yn fenywod. Mae lefelau'r data coll yn rhy uchel i adrodd ar ethnigrwydd (20%) neu amddifadedd (12%).

Roedd ychydig dros hanner y ceisiadau ar gyfer SIO neu PSO yn sefyllfaoedd mewn achos lle'r oedd rhai arwyddion o bryderon lles (adroddiad adran 7 neu 37 a/neu benodi gwarcheidwad o dan reol 16.4).

## Gorfodi

Dim ond 3.8% o'r ceisiadau cyfraith breifat ansafonol oedd ar gyfer gorfodi, a gwnaed y rhain yn bennaf gan neiniau a theidiau (40%), rhieni (29%) a llys-rieni (8.2%). Mewn un rhan o bump o'r achosion (19%), roedd perthynas yr ymgeisydd â'r plentyn yn anhysbys.

## Ceisiadau ar gyfer gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig

Roedd llai nag 1 o 10 (7.9%) o'r ceisiadau ansafonol mewn achos cyfraith teulu breifat yn Lloegr ar gyfer SGO. Gwnaed y rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn (55%) gan neiniau a theidiau, yr oedd tua hanner ohonynt yn ymgeiswyr unigol. Gwnaed cyfrannau llai o geisiadau SGO gan fodrybedd/ewythrod (17%) a brodyr neu chwiorydd (2.7%). Cofnodwyd perthynas 2.6% o'r ymgeiswyr fel 'gwarcheidwad arbennig', sy'n annisgwyl, er y gallai fod yn wall cofnodi. A bod yn fanwl gywir, ni fyddai unigolyn yn

warcheiwad arbennig i'r plentyn/plant tan i'r SGO gael ei wneud, ac mae llawer o ymgeiswyr ar gyfer SGO yn debygol o fod yn aelod o'r teulu hefyd. Roedd gofalwyr maeth yn cynrychioli 3.3% o'r ceisiadau SGO, a gwnaed cyfran fach o geisiadau SGO (4.8%) gan unigolion â pherthynas arall â'r plentyn ieuengaf. Roedd y grŵp hwn o ymgeiswyr ar gyfer SGO yn debyg i'r grŵp o berthnasau estynedig a oedd yn gwneud cais am CAO 'byw gyda' yn yr ystyr bod y mwyafrif (64%) yn fenywod, roeddent yn 51 oed ar gyfartaledd, ac roeddent wedi'u gorgynrychioli yn yr ardaloedd mwy difreintiedig. Roedd bron traean (35%) o'r ymgeiswyr ar gyfer SGO yn byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig, ac roedd dros hanner (57%) yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig. Yn anffodus, roedd gwybodaeth am ethnigrwydd ar goll ar gyfer dros draean o'r ymgeiswyr ar gyfer SGO (35%), felly ni allwn ddisgrifio'r amrywiaeth ethnig yn ddibynadwy.

Nid yw'n syndod, efallai, mai dim ond 1 o 10 (9.9%) o achosion oedd ag adroddiad adran 7 o ystyried, pan wneir cais preifat am SGO, bod rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad trwyadl a pharatoi adroddiad penodol ar gyfer y llys. Roedd cyfran debyg o geisiadau (11%) mewn achosion lle y penodwyd gwarcheidwad i gynrychioli'r plentyn ar wahân. Mae hyn yn wahanol i achosion pan wneir SGO ar ddiwedd achos gofal, pan fydd gwarcheidwad yn bresennol ym mhob achos.

## Gorchmynion rhieni

Roedd ceisiadau ar gyfer gorchymyn rhieni mewn achosion benthyg croth yn cynrychioli 5.7% o'r holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol yn Lloegr dros y cyfnod 4 blynedd. Cofnodwyd mwyafrif yr ymgeiswyr (82%) fel rhieni bwriadedig y plentyn, tra bod perthynas 13% yn anhysbys, a chofnodwyd cyfran fach (5.3%) fel rhiant neu fod â pherthynas o fath arall â'r plentyn. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am gofnodi'n gywir gan Cafcass.

Nid yw'n syndod, efallai, bod yr ymgeiswyr yn y grŵp hwn yn eithaf gwahanol i'r rhai sy'n ymwneud â cheisiadau ansafonol eraill. Mae dwy ran o dair (68%) o'r ymgeiswyr yn ddynion, sy'n ddisgwyliedig o ystyried bod ceisiadau benthyg croth yn cael eu gwneud yn gyffredinol gan bâr o'r ddau ryw, pâr o ddynion, neu ymgeisydd gwrywaidd unigol. Roeddent yn fwy tebygol nag oedolion yn y boblogaeth gyffredinol, a'r rhai hynny mewn ceisiadau cyfraith breifat ansafonol yn gyffredinol, o fyw mewn ardaloedd llai difreintiedig – roedd 24% yn byw yn y cwintel lleiaf difreintiedig ac roedd 47% yn byw yn y 2 gwintel lleiaf difreintiedig. Fel y nodwyd gan Horsey et al. (2022), 'o ystyried cost triniaeth ffrwythloni breifat, yn ogystal â'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ad-dalu treuliau mamau benthyg, mae'n rhesymol tybio bod llawer o'r rhieni bwriadedig yn ennill symiau cymharol uchel' (tud. 6).

O ystyried bod gweithiwr cymdeithasol Cafcass yn paratoi adroddiad penodol ar gyfer y llys mewn achosion benthyg croth, nid yw'n syndod, efallai, mai dim ond 2.7% o'r ceisiadau gorchymyn rhieni oedd mewn achos lle'r oedd y llys wedi gorchymyn adroddiad adran 7 neu 37, neu wedi penodi gwarcheidwad o dan reol 16.4.

### Cyfrifoldeb rhieni

Roedd un o 20 (5.2%) o geisiadau cyfraith breifat ansafonol yn Lloegr ar gyfer PRO. Gwnaed traean o'r ceisiadau hyn (35%) gan lys-rieni, a gwnaed 39% arall gan neiniau a theidiau, modrybedd/ewythrod a brawd neu chwaer plentyn. Gwnaed nifer fach gan ymgeiswyr â pherthynas wahanol â'r plentyn, ac roedd perthynas yr ymgeiswyr â'r plentyn yn anhysbys mewn 14% o'r ceisiadau.

Roedd hanner yr ymgeiswyr (49%) yn fenywod, ac roeddent yn 44 oed ar gyfartaledd. Roedd tua hanner (47%) yr ymgeiswyr yn byw mewn ardaloedd yn y 2 gwintel mwyaf difreintiedig.

Roedd traean o'r ceisiadau cyfrifoldeb rhieni (35%) mewn achosion lle y gorchmynnwyd adroddiad lles, neu y penodwyd gwarcheidwad rheol 16.4.

### Ceisiadau eraill


Roedd nifer fach (3.4%) o geisiadau cyfraith breifat ansafonol ar gyfer gorchymyn o fath arall, yr oedd eu niferoedd yn rhy fach i'w hystyried ar wahân. Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau ar gyfer datganiad o bwy yw'r rhieni, mabwysiadu, ac i apelio, amrywio neu ddirymu gorchymyn presennol.

## Cymru

Dim ond i raddau cyfyngedig y gellir gwahaniaethu rhwng mathau o geisiadau cyfraith breifat ansafonol yng Nghymru gan fod llawer llai o geisiadau ac nid oes manylion ynglŷn â ph'un a oedd cais trefniadau plentyn ar gyfer 'treulio amser gyda' neu 'fyw gyda'.

Yn yr un modd ag yn Lloegr, roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau ar gyfer CAO (59%), fel y gwelir yn Ffigur 22. Roedd y grŵp mwyaf nesaf o geisiadau yng Nghymru ar gyfer gorchymyn mabwysiadu, a oedd yn cynrychioli 16% o'r holl geisiadau ansafonol. Roedd cyfran yr holl fathau eraill o geisiadau'n is nag yn Lloegr, heblaw am geisiadau ar gyfer gorfodi, sef 4.3%, a oedd ychydig yn uwch yng Nghymru. Roedd llai nag 1 o 10 (8.3%) o geisiadau ar gyfer SIO neu PRO, ac roedd 6.0% ar gyfer SGO. Roedd niferoedd bach o geisiadau ar gyfer gorchymyn rhieni (achosion benthyg croth) (2.3%), PRO (2.2%) a mathau eraill o orchmynion (1.9%).


**Ffigur 22: Gwahaniaethu rhwng ceisiadau cyfraith breifat ansafonol rhwng 2017/18 a 2020/21 (Cymru)**




## Ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn

Yn gyffredinol, roedd ceisiadau ar gyfer CAO yn cynrychioli tair rhan o bump (59%) o'r holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol yng Nghymru rhwng 2017/18 a 2020/21. Fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth yn y grŵp hwn, fel y gwelir yn Ffigur 23.

**Ffigur 23: Gwahaniaethu rhwng ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn rhwng 2017/18 a 2020/21 (Cymru)**



### Ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn gan aelodau o'r teulu estynedig

Gwnaed ychydig dros hanner (53%) y ceisiadau CAO gan aelodau o'r teulu estynedig. Mae hyn yn cynrychioli bron traean (31%) o'r holl geisiadau ansafonol a wnaed yng Nghymru. Gwnaed mwyafrif y ceisiadau hyn (89%) gan neiniau a theidiau – yr oedd dros hanner ohonynt (56%) yn ymgeiswyr unigol – a gwnaed cyfrannau llai gan fodrybedd ac ewythrod (9.4%) neu frawd neu chwaer plentyn (1.3%). Nid oes modd dweud pa gyfran o'r ceisiadau hyn oedd ar gyfer gorchymyn 'byw gyda' neu 'dreulio amser gyda'.

Roedd yr ymgeiswyr yn 55 oed ar gyfartaledd, ac roedd bron dwy ran o dair ohonynt (63%) yn fenywod. Roedd dros hanner (55%) yn byw mewn ardaloedd yn y 2 gwintel mwyaf difreintiedig.

### Ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn gan rieni

Gwnaed un rhan o bump (18%) o geisaidau CAO gan rieni, ac roedd yr ymatebydd/ymatebwyr yn aelodau o'r teulu estynedig neu'n warcheidwaid arbennig.

Gwnaed tair rhan o bump o'r ceisiadau hyn (59%) gan famau, tua thraean (35%) gan dadau, a dim ond 5.4% gan y ddau riant. Mewn tri chwarter (75%) o'r ceisiadau roedd yr ymatebwyr yn neiniau a theidiau'r plentyn, ac roedd 14% yn warcheidwad arbennig y plentyn (y mae llawer ohonynt yn perthyn i'r plentyn hefyd). Roedd gan ychydig dros 1 o 10 o'r ymatebwyr (12%) berthynas arall â'r plentyn.

Roedd yr ymgeiswyr a oedd yn rhieni yn 33 oed ar gyfartaledd ac roedd bron dwy ran o dair ohonynt (61%) yn fenywod. Roedd bron dwy ran o dair (65%) o'r ymgeiswyr yn byw yn y 2 gwintel mwyaf difreintiedig.

### Ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn gan lys-riant

Gwnaed llai nag 1 o 10 (8.4%) o'r ceisiadau CAO gan lys-rieni. Roeddent yn 34 oed ar gyfartaledd, roedd 45% yn fenywod ac roedd dros hanner (54%) yn byw yn y 2 gwintel mwyaf difreintiedig.

### Ceisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn pan fo'r ymgeisydd/ymgeiswyr a/neu'r ymatebydd/ymatebwyr yn anhysbys

Mewn 15% o geisiadau CAO yng Nghymru, roedd perthynas yr ymgeisydd/ymgeiswyr a/neu'r ymatebwyr â'r plentyn yn anhysbys.

## Ceisiadau eraill

Roedd cyfran fach o geisiadau trefniadau plentyn (6.1%) yng Nghymru yn ymwneud ag ymgyfreithwyr eraill, gan gynnwys tadau tybiedig, rhieni mabwysiadol a gwarcheidwaid arbennig.

## Ceisiadau ar gyfer gorchymyn mater penodol neu gamau gwaharddedig

Roedd llai nag 1 o 10 o'r ceisiadau cyfraith breifat ansafonol (8.3%) a wnaed yng Nghymru ar gyfer SIO neu PSO. Mewn bron traean o'r ceisiadau hyn (31%), roedd perthynas yr ymgeisydd â'r plentyn yn anhysbys. Gwnaed chwarter o'r ceisiadau (26%) gan neiniau a theidiau, 17% gan rieni, 16% gan lys-rieni, a 10% gan ymgeiswyr â pherthynas arall â'r plentyn.

Roedd ymgeiswyr ar gyfer gorchymyn mater penodol neu gamau gwaharddedig yn 44 oed ar gyfartaledd ac yn fwy tebygol o fod yn fenywod (53%). Roedd bron hanner (48%) yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig.

## Gorfodi

Dim ond 4.3% o'r ceisiadau cyfraith breifat ansafonol oedd ar gyfer gorfodi. Gwnaed hanner o'r ceisiadau hyn (51%) gan neiniau a theidiau, dros chwarter (28%) gan rieni, a'r bumed ran arall (21%) gan unigolion â pherthynas arall â'r plentyn.

Roedd yr ymgeiswyr yn 48 oed ar gyfartaledd, ac roedd bron dwy ran o dair (64%) yn fenywod.

## Ceisiadau ar gyfer gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig

Roedd ceisiadau ar gyfer SGO yn cynrychioli 6.0% o'r ceisiadau cyfraith breifat ansafonol yng Nghymru. Gwnaed tua hanner (47%) o'r ceisiadau hyn gan neiniau a theidiau, yr oedd mwyafrif ohonynt yn bâr. Roedd perthynas yr ymgeisydd/ymgeiswyr â'r plentyn yn anhysbys mewn traean o geisiadau SGO, a gwnaed cyfran fach gan fodrybedd ac ewythrod (6.8%), ac oddeutu 1 o 10 gan rywun â pherthynas arall â'r plentyn.

Roedd yr ymgeiswyr yn 51 oed ar gyfartaledd, ac roedd dros hanner (54%) yn fenywod. Roeddent wedi'u gorgynrychioli mewn ardaloedd mwy difreintiedig, gyda thair rhan o bump yn byw yn y ddwy gwintel mwyaf difreintiedig.

## Ceisiadau ar gyfer gorchymyn mabwysiadu

Roedd ceisiadau ar gyfer gorchymyn mabwysiadu yn cynrychioli 16% o'r ceisiadau cyfraith breifat ansafonol yng Nghymru. Gwyddys bod mwyafrif wedi cael eu gwneud gan lys-rieni (59%), er y cofnodwyd perthynas yr ymgeisydd/ymgeiswyr â'r plentyn fel rhieni mabwysiadol mewn 14% o'r ceisiadau, ac roedd yn anhysbys mewn chwarter (24%), ac mae'n debygol bod yr ymgeiswyr hyn yn llys-rieni hefyd.

Roedd yr ymgeiswyr yn 40 oed ar gyfartaledd, ac roedd pedair rhan o bump yn ddynion, sy'n dangos mai ceisiadau mabwysiadu gan lystad oedd y senario mwyaf tebygol. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o fathau eraill o geisiadau, nid oedd unigolion a oedd yn gwneud cais am orchymyn mabwysiadu wedi'u gorgynrychioli yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (roedd 39% yn byw yn y 2 gwintel mwyaf difreintiedig sydd, yn ôl ei ddiffiniad, yn cynrychioli 40% o'r boblogaeth ehangach).

## Gorchymyn rhieni (benthyg croth)

Roedd cyfran fach o geisiadau cyfraith breifat ansafonol (2.3%) ar gyfer gorchymyn rhieni, a wneir mewn achosion benthyg croth. Er bod yr unigolion sy'n gwneud cais am orchymyn o'r fath yn cael eu hadnabod fel y rhieni bwriadedig fel arfer, nid oedd perthynas o'r math hwn yn cael ei chofnodi'n systematig yn nata Cafcass Cymru, gan fod perthynas tri chwarter o'r ymgeiswyr (75%) yn anhysbys.

Roedd ymgeiswyr ar gyfer gorchymyn rhieni yn 40 oed ar gyfartaledd, ac roedd oddeutu tair rhan o bump (57%) yn ddynion.

## Cyfrifoldeb rhieni

Roedd ceisiadau ar gyfer PRO yn cynrychioli cyfran fach iawn (2.2%) o'r holl geisiadau cyfraith breifat ansafonol yng Nghymru. Gwnaed un rhan o bump o'r ceisiadau hyn (22%) gan neiniau a theidiau a dwy ran o bump (41%) gan lys-rieni, ac roedd gan y ceisiadau a oedd yn weddill berthynas arall â'r plentyn. Roedd yr ymgeiswyr yn 42 oed ar gyfartaledd, ac roedd y rhan fwyaf (58%) yn ddynion.

## Ceisiadau eraill

Roedd nifer fach (1.9%) o geisiadau cyfraith breifat ansafonol ar gyfer gorchymyn o fath gwahanol, yr oedd eu niferoedd yn rhy fach i'w hystyried ar wahân. Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau ar gyfer datganiad o bwy yw'r rhieni, ac i apelio, amrywio neu ddirymu gorchymyn presennol.

# Y gorgyffyrddiad â chyfraith gyhoeddus

Disgrifiodd yr adran flaenorol amrywiaeth y ceisiadau a wnaed mewn cyfraith breifat ansafonol yng Nghymru a Lloegr. Yma, ar gyfer Lloegr, trafodwn gyfran y ceisiadau y gellid ystyried bod elfen ohonynt yn gorgyffwrdd â chyfraith gyhoeddus.[37]

Er bod rhai mathau o geisiadau, fel achosion benthyg croth, y rhai hynny sy'n ymwneud â llys-rieni, neu lle mae aelodau o'r teulu estynedig yn gwneud cais am orchymyn 'treulio amser gyda', yn wahanol i fwyafrif yr achosion cyfraith breifat sy'n ymwneud â rhieni sy'n gwahanu, maen nhw'n bendant yn rhan o faes cyfraith breifat. Canfuom y gellid nodi bod chwarter (25%) o'r ceisiadau cyfraith breifat ansafonol yn Lloegr yn perthyn i'r categori hwn.

Gellid ystyried bod yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â mathau eraill o geisiadau cyfraith breifat ansafonol – lle y gofynnir i'r llys wneud gorchmynion i gadarnhau trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan oedolion heblaw am eu rhieni – yn debycach i'r rhai hynny a welir mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Er bod ceisiadau gan aelodau o'r teulu estynedig ar gyfer CAO 'byw gyda' neu SGO, a'r rhai hynny a wneir gan rieni ar gyfer CAO pan fydd plant yn byw mewn man arall, yn cael eu gwneud fel ceisiadau cyfraith breifat, maen nhw'n debygol o gynnwys pryderon amddiffyn plant. Amcangyfrifom y gallai bron dwy ran o bump (38%) o'r ceisiadau cyfraith breifat ansafonol yn Lloegr gael eu dosbarthu fel rhai yr oedd elfen ohonynt yn gorgyffwrdd â chyfraith gyhoeddus.

O ran y 37% o geisiadau preifat ansafonol a oedd yn weddill, roedd yn fwy anodd pennu graddau'r gorgyffyrddiad â chyfraith gyhoeddus – naill ai oherwydd bod manylion y berthynas rhwng yr oedolion a'r plant yn anhysbys, neu oherwydd nad oedd modd amgyffred natur yr achos o'r data gweinyddol.



37 Gan na allwn wahaniaethu rhwng ceisiadau CAO ar gyfer 'byw gyda' a 'threulio amser gyda' yng Nghymru, nid yw'n glir pa gyfran o geisiadau sy'n gorgyffwrdd â chyfraith gyhoeddus.

# Trafodaeth

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi syniad o gymhlethdod ac amrywiaeth aruthrol ceisiadau cyfraith teulu breifat ansafonol, sy'n cynrychioli tua 10% o'r holl geisiadau cyfraith breifat a wneir yng Nghymru a Lloegr. Dangosodd ein gwaith ymchwil, rhwng 2017/18 a 2020/21, fod tua 5,500 o geisiadau ansafonol wedi cael eu gwneud bob blwyddyn yn Lloegr a 300 yng Nghymru. Nid yw'r nifer hwn yn ddibwys, ac mae'n gyfystyr ag oddeutu traean o'r ceisiadau cyfraith gyhoeddus am orchymyn gofal a goruchwylio (15,500 bob blwyddyn yn Lloegr a 1,000 yng Nghymru).

## Cyffredinrwydd ac amrywiad rhanbarthol

Canfu'r gwaith ymchwil fod ceisiadau cyfraith breifat sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni yn digwydd mewn lleiafrif bach o deuluoedd bob blwyddyn – gydag 8.0 o geisiadau fesul 10,000 o deuluoedd yn y boblogaeth yn Lloegr ac 8.5 fesul 10,000 o deuluoedd yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod patrwm yr amrywiadau rhanbarthol mewn ceisiadau cyfraith breifat ansafonol yn debyg i geisiadau cyfraith breifat safonol ac achosion cyfraith gyhoeddus. Gwelwyd cyfraddau cyffredinrwydd uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn Swydd Efrog a'r Gogledd-ddwyrain, ac is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn Llundain.

Mae angen archwilio'r amrywiadau hyn yn fanylach, gan gynnwys yn ôl ardal awdurdod lleol a llys, i ddatgelu unrhyw wahaniaethau posibl mewn arferion lleol. Canfu gwaith ymchwil diweddar gan What Works for Children's Social Care (Schoenwald et al. 2022) amrywiad mawr rhwng awdurdodau lleol o ran defnyddio lleoliadau gofal maeth gan berthynas a phlant yn gadael gofal i fyw gyda gwarcheidwad arbennig sy'n berthynas. Mae hefyd angen i ni ddeall mwy ynglŷn â phryd y gallai awdurdodau lleol gynorthwyo teuluoedd estynedig i wneud cais preifat i blentyn fyw gyda nhw, yn hytrach na chychwyn achos gofal, a sut a pham y gallai hyn amrywio. Byddai ymchwilio i'r berthynas rhwng cyfraddau ceisiadau ansafonol, ceisiadau cyfraith teulu breifat safonol (rhwng dau riant) ac achosion gofal, ar lefel ranbarthol a lleol, yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r amrywiadau mewn ymagweddau at wahanol drefniadau gofal gan berthynas. Mae'n bwysig bod gwaith ymchwil yn y dyfodol yn archwilio ethnigrwydd a sut mae hynny'n gysylltiedig â'r gwahanol lwybrau a chymorth a gynigir.

## Amrywiaeth mewn ceisiadau ac unigolion

Mae ystod y gorchmynion y gwneir cais amdanynt mewn ceisiadau ansafonol, ac amrywiaeth yr unigolion sy'n gysylltiedig, yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r hyn a welir mewn ceisiadau cyfraith breifat safonol. Er bod y rhan fwyaf o geisiadau ar gyfer gorchymyn trefniadau plentyn (CAO), roedd ceisiadau hefyd ar gyfer gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig (SGOs), gorchmynion rhieni (mewn achosion benthyg croth), cyfrifoldeb rhieni a mabwysiadu. Yn nodweddiadol, roedd yr unigolion a oedd yn ymwneud â cheisiadau ansafonol yn hŷn ac yn fwy tebygol o fod yn fenywod. Roedd ceisiadau'n ymwneud yn anghymesur â'r rhai hynny a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwy difreintiedig o Gymru a Lloegr. Mae angen i'r system cyfiawnder teuluol fyfyrio ar yr hyn y mae'r canfyddiadau hyn yn ei olygu i'r ffordd y mae'n rheoli amrywiaeth achosion yn effeithiol ac yn gyson, a sut gallai'r unigolion hyn brofi gwasanaethau a ddatblygwyd o amgylch achosion rhieni safonol.

Yn Lloegr, canfuom hefyd fod oedolion o leiafrifoedd ethnig, yn enwedig rhai nad oeddent yn rhieni, yn llai tebygol o ymddangos mewn ceisiadau cyfraith breifat ansafonol nag mewn ceisiadau safonol. Mewn gwaith cynharach gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (Alrouh et al. 2022), roedd yr un gyfran o unigolion o'r grŵp Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig yn ymddangos mewn achosion cyfraith breifat â'r boblogaeth gyffredinol, felly mae angen archwilio'r gwahaniaeth yn amrywiaeth ethnig y grŵp hwn ymhellach o gymharu ag achosion cyfraith breifat safonol. Bydd gwelliannau parhaus gan Cafcass o ran cofnodi ethnigrwydd yn gyson yn gwella ein dealltwriaeth o amrywiaeth ethnig mewn cyfraith breifat, oherwydd nid oeddem yn gallu cymharu ethnigrwydd oedolion a oedd yn ymwneud â gwahanol fathau o geisiadau yn ddibynadwy o ganlyniad i lefelau uchel o ddata coll.

## Gorgyffyrddiad â chyfraith gyhoeddus

Er bod anghydfodau cyfreithiol sy'n ymwneud â phlant yn cael eu rhannu'n gysyniadol yn gyfraith breifat neu gyhoeddus, mae'r dosbarthiad deuaidd hwn yn cuddio'r gwirionedd, sef bod llawer o achosion o'r fath yn hybrid, a hwythau'n cynnwys elfennau o'r ddwy yn aml (Bainham 2013). Canfuom y gellid ystyried bod cyfran arwyddocaol – o leiaf ddwy ran o bump – o geisiadau ansafonol yn gorgyffwrdd â chyfraith gyhoeddus, oherwydd ei bod yn ymddangos bod plant yn derbyn gofal gan oedolion heblaw am eu rhieni. Er bod achosion o'r fath yn cael eu cynnal ym maes cyfraith breifat, gallai pryderon amddiffyn plant fodoli yn y cefndir. Mae angen deall mwy am yr amgylchiadau pryd y gwneir y ceisiadau hyn, gan gynnwys p'un a oedd achosion gofal wedi cael eu cynnal yn y gorffennol.

Roedd unigolion a oedd yn ymwneud â'r mathau hyn o geisiadau – rhieni a phobl nad oeddent yn rhieni – wedi'u gorgynrychioli mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Yn aml, roedd ymgeiswyr am CAO a oedd yn rhieni yn famau ifanc, sengl, ac roedd mwyafrif yr ymgeiswyr nad oeddent yn rhieni ar gyfer CAO 'byw gyda' neu SGO yn neiniau a theidiau, ac felly'n hŷn nag ymgeiswyr eraill cyfraith breifat ansafonol yn gyffredinol, ac yn gwneud cais yn unigol yn aml. Er bod newid diweddar i'r gyfraith yn golygu bod gan unigolion sy'n gwneud cais preifat am SGO yr hawl i gael cymorth cyfreithiol â phrawf modd, nid felly'r rhai sy'n gwneud cais am CAO, nac ychwaith rhieni sy'n ymatebwyr. Mae hyn yn golygu y gallai oedolion sy'n agored i niwed, o bosibl, fod heb fynediad at gyngor a chymorth cyfreithiol digonol i lywio cymhlethdod y system cyfiawnder teuluol, gan gynnwys gwneud cais am y math mwyaf priodol o orchymyn. Efallai bod cyfran fwy o geisiadau teulu estynedig yn Lloegr wedi cael eu gwneud ar gyfer gorchymyn 'byw gyda' nag SGO oherwydd nad oedd perthnasau'n ymwybodol o'r gwahanol opsiynau, a gallai hyn arwain at oblygiadau arwyddocaol.

Mae'r cymorth a dderbynnir gan blant sy'n byw mewn trefniadau gofal gan berthynas – gan gynnwys cymorth ariannol a mynediad at gymorth yn yr ysgol trwy'r premiwm disgybl a'r system rith-bennaeth – yn amrywio yn dibynnu ar y trefniadau cyfreithiol. Er ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion cymorth ariannol gwarcheidwaid arbennig pan oedd plant yn derbyn gofal yn flaenorol, mae cymorth pan gafwyd SGO neu CAO 'byw gyda' trwy achosion cyfraith breifat yn ddewisol ac yn destun prawf modd. Mae diffyg cysondeb wedi arwain at 'loteri cod post', lle mae'r cymorth ariannol a gaiff deulu wedi'i seilio ar ble mae'r plentyn yn byw, yn hytrach na'i anghenion (McGrath 2022). Byddai'n berthnasol ymchwilio i amrywiadau lleol yng nghyfran y ceisiadau preifat ar gyfer y gwahanol fathau o orchymyn cyfreithiol, a ph'un a oes unrhyw dystiolaeth y gallai awdurdodau lleol lywio proses benderfynu perthnasau, gan eu cynorthwyo i wneud cais preifat i blentyn fyw gyda nhw ar SGO neu orchymyn 'byw gyda' yn hytrach na chychwyn achos gofal.

## Llais y plentyn

Yn wahanol i achosion cyfraith gyhoeddus, nid yw plant yn cael eu cynrychioli ar wahân yn awtomatig mewn achosion cyfraith breifat. Canfuom hefyd fod y dulliau arferol a ddefnyddir gan y llys i archwilio pryderon lles a galluogi llais y plentyn i gael ei glywed mewn achosion cyfraith breifat yn llai amlwg mewn achosion ansafonol nag eraill. Er y gellid esbonio hyn i ryw raddau gan y defnydd o adroddiadau penodol mewn achosion SGO a benthyg croth, mae'n werth ei archwilio ymhellach o hyd. Byddai'r ffaith bod pobl nad ydynt yn rhieni yn gysylltiedig yn awgrymu ystyriaethau lles mwy cymhleth, yn enwedig mewn achosion lle y gofynnir i'r llys wneud gorchmynion sy'n cadarnhau trefniadau lle mae'n ymddangos bod plant yn derbyn gofal gan rywun heblaw eu rhieni. Dim ond dwy ran o bump (38%) o'r ceisiadau gan aelodau o'r teulu estynedig ar gyfer gorchymyn 'byw gyda' oedd yn cynnwys

adroddiad adran 7 neu 37 neu benodi gwarcheidwad o dan reol 16.4, er gwaethaf natur arwyddocaol iawn y gorchmynion hyn. O ystyried y pwyslais ar gau achosion a lleihau oedi, mae'n bosibl bod rhai o'r achosion hyn yn mynd trwy'r llysoedd heb graffu'n ddigonol ar bennaf les plant. Nid yw'n glir o'r data hyn sut, os o gwbl, oedd llais y plentyn wedi cael ei glywed mewn achosion lle nad oes tystiolaeth o adroddiad ffurfiol gerbron y llys, sy'n arbennig o bwysig o ystyried bod ceisiadau ansafonol yn ymwneud â phlant hŷn yn amlach nag achosion safonol. Gallai cyflwyno rhywbeth tebyg i'r model Braenaru – sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd yn Dorset a Gogledd Cymru, lle yr ymgynghorir â phlant, fel y bo'n briodol, cyn y gwrandawiad cyntaf – wella cyfranogiad mewn achosion ansafonol yn sylweddol.

Mae'r graddau y mae awdurdodau lleol yn ymwneud â rhai achosion cyfraith breifat, trwy lunio adroddiadau lles a orchmynnwyd gan y llys, yn bwysig hefyd. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil i ddeall rôl awdurdodau lleol, y wybodaeth a gofnodir ganddynt, a phrofiadau'r rhai hynny sy'n gysylltiedig.

## Benthyg croth

Mae ceisiadau ar gyfer gorchymyn rhieni, mewn achosion benthyg croth, yn cynrychioli rhan fach ac unigryw o gyfraith teulu breifat ansafonol – 5.3% o'r ceisiadau yn Lloegr a 2.3% o'r ceisiadau yng Nghymru. Yn nhermau cyfreithiol, disgrifir perthynas yr ymgeisydd/ymgeiswyr â'r plentyn fel rhiant bwriadedig, er nad oedd hyn wedi'i gofnodi'n dda yn y data gweinyddol, yn enwedig yng Nghymru. Yn yr un modd â rhai agweddau eraill, byddai gwell cofnodi'n galluogi gwell dealltwriaeth o nodweddion ac anghenion posibl y rhai hynny sy'n ymwneud â cheisiadau.

Yn wahanol i'r rhai hynny a oedd yn ymwneud â mathau eraill o geisiadau, roedd yr ymgeiswyr mewn achosion benthyg croth yn tueddu i fod yn ddynion ac yn byw mewn ardaloedd llai difreintiedig. Roedd lefel y data amddifadedd lefel ardal a oedd ar goll yn golygu nad oeddem yn gallu ymchwilio i amgylchiadau'r mamau benthyg.

Disgwylir deddfwriaeth ddrafft newydd ynglŷn â benthyg croth yn 2023, a fydd yn darparu 'llwybr benthyg croth' newydd. Byddai dilyn y llwybr hwn yn golygu mai rhieni bwriadedig plentyn a enir i fam fenthyg yw rhieni cyfreithiol y plentyn o'i enedigaeth, oni bai bod y fam fenthyg yn gwrthwynebu (Comisiwn y Gyfraith a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban 2019). Canfu astudiaeth ansoddol o safbwyntiau mamau benthyg ynglŷn â chynigion y comisiynau eu bod yn cefnogi cyflwyno newidiadau o'r fath yn gryf (Horsey et al. 2022). Amser a ddengys beth fydd ffurf achosion benthyg croth yn y dyfodol, ac mae amheuon ynglŷn â ph'un a yw'n briodol i achosion o'r fath gael eu trin yn yr un maes llys ag amddiffyn plant ac anghydfodau teulu estynedig cyfraith breifat.

# Casgliadau

Mae'r rhaglen bresennol o ddiwygio cyfiawnder teuluol yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar brofiadau ac anghenion rhieni. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod angen edrych yn ehangach ar nodweddion, amgylchiadau ac anghenion teuluoedd sy'n ymwneud â cheisiadau ansafonol er mwyn bodloni anghenion yn well.

- Er bod gan warcheidiaeth arbennig a benthyg croth eu cyfundrefnau statudol eu hunain, nid oes llwybr cyfreithiol clir ar gyfer mwyafrif y ceisiadau ansafonol a welwyd yn y dadansoddiad hwn (sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Rhaglen Trefniadau Plentyn ar hyn o bryd), heblaw am hwnnw a luniwyd ar gyfer rhieni sy'n gwahanu.

- Nid oes dull penodol i'r llys arfer ei allu ymchwiliol mewn achosion sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn rhieni, y mae llawer ohonynt yn cynnwys elfen sy'n gorgyffwrdd â chyfraith gyhoeddus. Byddai'n ddefnyddiol i broses ddiwygio yn y dyfodol ystyried creu llwybr sy'n cynrychioli cymhlethdod yr achosion hyn yn briodol ac yn hoelio sylw'r llys ar oblygiadau ei benderfyniadau.

- Ar hyn o bryd, mae polisi'n canolbwyntio ar ailgyfeirio achosion cyfraith breifat i ffwrdd oddi wrth y llys. Mae angen rhoi sylw i briodoldeb ailgyfeirio achosion ansafonol a darparu cymorth y tu allan i'r llys sy'n ystyrlon ac yn hygyrch, ac nad yw'n stigmateiddio'r teuluoedd sy'n gysylltiedig.

- Mae'r gwaith ymchwil hefyd wedi amlygu'r angen am ddata cadarn a gwella prosesau cofnodi gweinyddol, er enghraifft, ar gyfer y perthnasoedd rhwng oedolion a phlant, fel y gellir cael darlun cywir o amgylchiadau teulu. Byddai cofnodi ethnigrwydd unigolion yn systematig yn golygu y gellid dadansoddi unrhyw amrywiadau yn fwy cadarn. Roedd oedolion o leiafrifoedd ethnig, yn enwedig pobl nad oeddent yn rhieni, yn llai tebygol o ymddangos mewn ceisiadau cyfraith breifat ansafonol na cheisiadau safonol, ond roedd lefelau uchel o ddata coll ar gyfer rhai grwpiau yn atal archwilio'n ddyfnach.

- O ystyried bod mabwysiadu'n torri cysylltiad cyfreithiol plentyn â'i riant geni arall a bod gwahanol opsiynau ar gyfer caffael cyfrifoldeb rhieni ar gael i lys-rieni, mae angen adolygu'r defnydd o fabwysiadu gan lys-rieni yng Nghymru, a ph'un a yw hyn yn gymesur. Mae arferion cofnodi ceisiadau mabwysiadu heb fod drwy asiantaeth yn Lloegr yn wahanol, felly nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon. Mae angen cysoni'r prosesau cofnodi, a gwneud mwy o waith ymchwil i ystyried y defnydd o fabwysiadu gan lys-rieni yn Lloegr.

- Mae angen archwilio'n llawnach amrywiadau rhanbarthol mewn cyfraddau ceisiadau cyfraith breifat ansafonol, a'r berthynas â chyfraddau ceisiadau cyfraith breifat safonol (rhwng dau riant) ac achosion gofal. A oes unrhyw dystiolaeth o amrywiad o ran i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn cynorthwyo teuluoedd estynedig i wneud cais preifat i blentyn fyw gyda nhw yn hytrach na chychwyn achos gofal? A yw'r opsiynau sydd ar gael i neiniau a theidiau yn amrywio yn dibynnu ar eu hamgylchiadau? Mae'n bwysig deall hyn o ystyried y gwahanol lefelau cymorth, gan gynnwys cymorth ariannol, a roddir i blant sy'n byw gyda theulu estynedig ar wahanol orchmynion, ac yn seiliedig ar b'un a oeddent yn derbyn gofal yn flaenorol. Mae'n hanfodol archwilio ymhellach yr achosion a allai gynrychioli 'gorgyffyrddiad rhwng cyfraith gyhoeddus a phreifat' – ac amgylchiadau a phrofiadau'r rhai sy'n gysylltiedig.

# Cyfeiriadau

**Alrouh,** B., Hargreaves, C., Cusworth, L., Broadhurst, K., North, L., Griffiths, L., Doebler, S., Akbari, A., Farr, I. a Cowley, L. (2022). *What do we know about ethnic diversity in the family justice system in England?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/what-do-we-know-about-ethnicity-in-the-family-justice-system-in-england

**Bainham,** A. (2013). Private and public children law: an under-explored relationship. *Child and Family Law Quarterly*, 25(2). https://www.familylaw.co.uk/news_and_comment/child-and-family-law-quarterly-vol-25-no-2-2013

**Barnett,** A. (2020). *Domestic abuse and private law children cases: A literature review*. Cyfres Ddadansoddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/895175/domestic-abuse-private-law-children-cases-literature-review.pdf

**Bedston,** S., Pearson, R., Jay, M.A., Broadhurst, K., Gilbert, R. a Wijlaars, L. (2020). Data Resource: Children and Family Court Advisory and Support Service (Cafcass) public family law administrative records in England. *International Journal of Population Data Science*, 5(1). https://doi.org/10.23889/ijpds.v5i1.1159

**Broadhurst,** K., Alrouh, B., Mason, C., Ward, H., Holmes, L., Ryan, M. a Bowyer, S. (2018). *Born into care: Newborns in care proceedings in England*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/born-into-care-newborns-in-care-proceedings-in-england-final-report-october-2018

**Cassidy,** D. a Davey, S. (2011). *Family justice children's proceedings - review of public and private law case files in England & Wales*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/217368/family-justice-childrens-proceedings.pdf

**Cusworth,** L., Bedston, S., Trinder, L., Broadhurst, K., Pattinson, B., Harwin, J., Johnson, R.D., Alrouh, B., Doebler, S., Akbari, A., Lee, A., Griffiths, L.J. a Ford, D.V. (2020). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/private-family-law-whos-coming-to-court-wales

**Cusworth,** L., Bedston, S., Alrouh, B., Broadhurst, K., Johnson, R.D., Akbari, A. a Griffiths, L.J. (2021a). *Uncovering private family law: Who's coming to court in England?* https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/private-family-law-whos-coming-to-court-england

**Cusworth,** L., Hargreaves, C., Alrouh, B., Broadhurst, K., Johnson, R., Griffiths, L., Akbari, A., Doebler, S. a John, A. (2021b). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Nodweddion a ffactorau risg oedolion (Cymru)*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-adult-characteristics-and-vulnerabilities-wales

**Yr** Adran Addysg. (2017). *Special guardianship guidance. Statutory guidance for local authorities on the Special Guardianship Regulations 2005 (as amended by the Special Guardianship (Amendment) Regulations 2016)*. https://www.gov.uk/government/publications/special-guardianship-guidance

**Ford,** D. V, Jones, K.H., Verplancke, J.P., Lyons, R.A., John, G., Brown, G., Brooks, C.J., Thompson, S., Bodger, O., Couch, T. a Leake, K. (2009). The SAIL Databank: Building a national architecture for e-health research and evaluation. *BMC Health Services Research*, 9. https://doi.org/10.1186%2F1472-6963-9-157

**Griffiths,** L.J., McGregor, J., Johnson, R., Broadhurst, K., Pouliou, T., Cusworth, L., North, L., Ford, D. a John, A. (2022). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Gorbryder ac iselder ymhlith plant a phobl ifanc*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-anxiety-and-depression-among-children-and-young-people

**Harding,** M. a Newnham, A. (2015). *How do county courts share the care of children between parents?* Sefydliad Nuffield. https://www.nuffieldfoundation.org/sites/default/files/files/Full%20report.pdf

**Hargreaves,** C., Cusworth, L., Alrouh, B., Broadhurst, K., Cowley, L., Abouelenin, M., Doebler, S., Akbari, A., Farr, I. a North, L. (2022). *Uncovering private family law: What can the data tell us about children' s participation?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-what-can-the-data-tell-us-about-childrens-participation

**Harwin,** J., Alrouh, B., Bedston, S. a Broadhurst, K. (2018). *Care demand and regional variability in England: 2010/11 to 2016/17*. Y Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd, Prifysgol Caerhirfryn. https://www.cfj-lancaster.org.uk/app/nuffield/files-module/local/documents/Care-Demand-Regional-Variability-Report_2018.02.21_V1.2.pdf

**Harwin,** J., Simmonds, J., Broadhurst, K. a Brown, R. (2019). *Special guardianship: a review of the English research studies*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2021/05/Nuffield-FJO_Special-guardianship_English-research-studies_final.pdf

**Horsey,** K., Arian-Schad, M., Macklon, N. ac Ahuja, K. (2022). UK surrogates ' characteristics , experiences, and views on surrogacy law reform. *International Journal of Law, Policy and the Family*, 45. https://doi.org/10.1093/lawfam/ebac030

**Hunter,** R., Burton, M. a Trinder, L.. (2020). *Assessing risk of harm to children and parents in private law children cases*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://www.gov.uk/government/consultations/assessing-risk-of-harm-to-children-and-parents-in-private-law-children-cases

**Jarrett,** T. (2020). *Children: child arrangements orders – when agreement cannot be reached on contact and residence (Great Britain)*. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-8761/

**Johnson,** R.D., Ford, D. V, Broadhurst, K., Cusworth, L., Jones, K.H., Akbari, A., Bedston, S., Alrouh, B., Doebler, S., Lee, A., Smart, J., Thompson, S., Trinder, L. a Griffiths, L.J. (2020). Data Resource: Population level family justice administrative data with opportunities for data linkage. *International Journal of Population Data Science*, 5(1).

**Jones,** K.H., Ford, D. V., Jones, C., Dsilva, R., Thompson, S., Brooks, C.J., Heaven, M.L., Thayer, D.S., McNerney, C.L. a Lyons, R.A. (2014). A case study of the secure anonymous information linkage (SAIL) gateway: A privacy-protecting remote access system for health-related research and evaluation. *Journal of Biomedical Informatics*, 50. https://doi.org/10.23889/ijpds.v5i1.1339

**Jones,** K.H., Ford, D.V., Thompson, S. a Lyons, R.A. (2020). A profile of the SAIL databank on the UK secure research platform. *International Journal of Population Data Science*, 4(2). https://doi.org/10.23889/ijpds.v4i2.1134

**Comisiwn** y Gyfraith a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban. (2019). *Building families through surrogacy: a new law. A joint consultation paper*. https://www.lawcom.gov.uk/project/surrogacy/

**Lyons,** R.A., Jones, K.H., John, G., Brooks, C.J., Verplancke, J.P., Ford, D. V, Brown, G. a Leake, K. (2009). The SAIL databank: Linking multiple health and social care datasets. *BMC Medical Informatics and Decision Making*, 9(1). https://doi.org/10.1186/1472-6947-9-3

**Maclean,** M. ac Eekelaar, J. (2019). *After the Act: Access to family justice after LASPO*. Rhydychen: Hart Publishing.

**McGrath,** P. (2022). *Developing good practice in financially supporting special guardians. A guide for local authorities*. Kinship. https://kinship.org.uk/wp-content/uploads/Kinship-ASGLB-July-2022-Final-for-publication.pdf

**Y** Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2022a). *Family Court Statistics Quarterly: July to September 2022*. https://www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-july-to-september-2022/family-court-statistics-quarterly-july-to-september-2022

**Y** Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2022b). *Guide to Family Court Statistics*. https://www.gov.uk/government/publications/a-guide-to-family-court-statistics

**North,** L., Akbari, A., Cowley, L., Alrouh, B., Hargreaves, C., Cusworth, L., Broadhurst, K., Farr, I., Doebler, S., Abouelenin, M., Smart, J., Ford, D. a Griffiths, L. (2022). *Beth ydym yn ei wybod am amrywiaeth ethnig yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/nfjo_summary_ethnic_diversity_wales_20220629final_english-1.pdf

**Y** Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). (2021). *Population estimates by ethnic group and religion, England and Wales: 2019*. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/articles/populationestimatesbyethnicgroupandreligionenglandandwales/2019

**ONS.** (2022). *Families by family type, regions of England and UK constituent countries*. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/datasets/familiesbyfamilytyperegionsofenglandandukconstituentcountries

**Pattinson,** B., Broadhurst, K., Alrouh, B., Cusworth, L., Doebler, S., Griffiths, L., Johnson, R., Akbari, A. a Ford, D. (2021). *Babanod newydd-anedig mewn achosion gofal brys yng Nghymru a Lloegr*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/newborn-babies-urgent-care-proceedings

**Schoenwald,** E., Smyth, E., Gwyther, J., O'Higgins, A., Briggs, E., Gurau, O. ac Alam, A. (2022). *Understanding fomal kinship care arrangements in England. Analysis of administrative data*. What Works for Children's Social Care. https://whatworks-csc.org.uk/research-report/understanding-formal-kinship-care-arrangements-in-england/

**Trinder,** L., Hunt, J., Macleod, A., Pearce, J. a Woodward, H. (2013). *Enforcing contact orders: problem-solving or punishment?* Ysgol y Gyfraith Caerwysg, Prifysgol Caerwysg. https://ore.exeter.ac.uk/repository/handle/10871/16765

**Trinder,** L., Hunter, R., Hitchings, E., Miles, J., Moorhead, R., Smith, L., Sefton, M., Hinchly, V., Bader, K. a Pearce, J. (2014). *Litigants in person in private family law cases*. Cyfres Ddadansoddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://www.gov.uk/government/publications/litigants-in-person-in-private-family-law-cases

# Atodiad A: Tablau atodol

**Tabl A.1: Carfan data Cafcass fesul blwyddyn ariannol**

| **Sampl cyfraith breifat** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob cais cyfraith breifat | 56,350 | 60,880 | 64,800 | 67,730 | 249,760 |
| O'r rhain, y ceisiadau cyfraith breifat ansafonol (%) | 5,270 (9.3%) | 5,470 (9.0%) | 5,790 (8.9%) | 5,490 (8.1%) | 22,030 (8.8%) |
| Oedolion (unigryw) a oedd yn gysylltiedig â cheisiadau ansafonol (fel ymgeiswyr/ymatebwyr) | 12,410 | 12,890 | 13,770 | 12,680 | |
| Plant (unigryw) a oedd yn gysylltiedig â cheisiadau ansafonol (fel testunau) | 5,730 | 5,920 | 6,270 | 5,990 | |
| **Cymhariaeth cyfraith gyhoeddus** | | | | | |
| Ceisiadau gofal a goruchwyliaeth adran 31 | 15,920 | 16,020 | 15,140 | 14,710 | 61,800 |
| Oedolion (unigryw) a oedd yn gysylltiedig (fel ymatebwyr) | 25,980 | 24,980 | 24,410 | 24,340 | |
| Plant (unigryw) a oedd yn gysylltiedig (fel testunau) | 24,660 | 23,540 | 22,390 | 21,950 | |

Sylwer: Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf. Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb i swm y ffigurau ar wahân. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo yn ôl ffigurau heb eu talgrynnu.

### Tabl A.2: Carfan data Cafcass Cymru fesul blwyddyn ariannol

| **Sampl cyfraith breifat** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob cais cyfraith breifat | 3,170 | 3,200 | 3,400 | 3,250 | 13,010 |
| O'r rhain, y ceisiadau ansafonol (%) | 310 (9.8%) | 310 (9.6%) | 330 (9.8%) | 270 (8.4%) | 1,220 (9.4%) |
| (Oedolion (unigryw) a oedd yn gysylltiedig â cheisiadau ansafonol (fel ymgeiswyr/ ymatebwyr) | 930 | 920 | 980 | 780 | |
| Plant (unigryw) a oedd yn gysylltiedig â cheisiadau ansafonol (fel testunau) | 400 | 390 | 400 | 340 | |
| **Cymhariaeth cyfraith gyhoeddus** | | | | | |
| Ceisiadau gofal a goruchwyliaeth adran 31 | 1,070 | 1,030 | 900 | 910 | 3,900 |
| Oedolion (unigryw) a oedd yn gysylltiedig (fel ymatebwyr) | 1,890 | 1,860 | 1,600 | 1,650 | |
| Plant (unigryw) a oedd yn gysylltiedig (fel testunau) | 1,680 | 1,640 | 1,430 | 1,420 | |

Sylwer: Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf. Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb i swm y ffigurau ar wahân. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo yn ôl ffigurau heb eu talgrynnu.

### Tabl A.3: Data Cafcass. Nifer y ceisiadau cyfraith breifat a'r gyfran â data perthynas coll fesul blwyddyn ariannol

| | **2011/12** | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob cais cyfraith breifat | 59,240 | 65,820 | 63,430 | 45,950 | 49,010 | 54,790 | 57,280 | 61,570 | 65,740 | 68,720 | 591,520 |
| Ceisiadau â data perthynas coll (%) | 12.3% | 11.2% | 10.8% | 6.6% | 5.0% | 4.9% | 4.1% | 3.3% | 3.6% | 3.6% | 6.6% |

Sylwer: Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf. Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb i swm y ffigurau ar wahân. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo yn ôl ffigurau heb eu talgrynnu.

**Tabl A.4: Data Cafcass Cymru. Nifer y ceisiadau cyfraith breifat a'r gyfran â data perthynas coll fesul blwyddyn ariannol**

| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob cais cyfraith breifat | 3,430 | 4,050 | 4,190 | 2,790 | 2,900 | 3,020 | 3,230 | 3,350 | 3,540 | 3,340 | 33,840 |
| Ceisiadau â data perthynas coll (%) | 20.4% | 20.7% | 35.6% | 22.2% | 32.4% | 14.9% | 5.6% | 9.0% | 7.9% | 4.5% | 17.6% |

Sylwer: Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf. Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb i swm y ffigurau ar wahân. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo yn ôl ffigurau heb eu talgrynnu.

# Atodiad B: Fframwaith cyfreithiol



Mae'r adran hon yn rhoi amlinelliad byr o'r gwahanol fathau o orchmynion y gellir ymgeisio amdanynt o fewn achosion cyfraith breifat ansafonol a'r fframwaith cyfreithiol perthnasol.

## Gorchmynion trefniadau plentyn (Adran 8)

Mae sawl gorchymyn gwahanol sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer plant yn dod o dan Adran 8 Deddf Plant 1989, ac ymgeisir amdanynt gan ddefnyddio ffurflen gais C100.[38] Ym mhob achos, mae egwyddorion sylfaenol Deddf Plant 1989 yn berthnasol, ac mae'n rhaid i'r llys ystyried lles y plentyn uwchlaw popeth. Mae'n rhaid ystyried nifer o ffactorau wrth bennu beth fydd ym mhennaf les y plentyn, y cyfeirir atynt yn aml fel y 'rhestr wirio lles' (adran 1(3)). Mae'r rhain yn cynnwys dymuniadau a theimladau canfyddadwy'r plentyn (o ystyried ei oedran a'i ddealltwriaeth), ei anghenion a'i nodweddion, unrhyw niwed y mae'r plentyn mewn perygl ohono neu wedi'i ddioddef, a pha mor alluog yw rhiant y plentyn neu ofalwr arall perthnasol i fodloni ei anghenion.

### Gorchymyn trefniadau plentyn – 'byw gyda' a 'threulio amser gyda'

Y gorchymyn adran 8 mwyaf cyffredin yr ymgeisir amdano mewn achosion cyfraith breifat yw gorchymyn trefniadau plentyn (CAO), sy'n rheoleiddio trefniadau yn ymwneud â ble y dylai plentyn fyw a phwy y dylai dreulio amser gydag ef neu gael cysylltiad ag ef fel arall. Cyflwynwyd y CAO unigol yn 2014 i ddisodli gorchmynion ar wahân ar gyfer cyswllt a phreswylio.[39] Ysgogwyd y newid gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 i geisio symud i ffwrdd oddi wrth hierarchaeth ganfyddedig y rhiant 'preswyl' a 'chyswllt'. Yn ymarferol, mae CAOs yn parhau i gael eu disgrifio'n rheolaidd

38 Mae gwefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn rhoi arweiniad ar geisiadau llys teulu sy'n ymwneud â phlant a'r gorchmynion y gellir ymgeisio amdanynt: https://www.gov.uk/government/publications/family-court-applications-that-involve-children-cb1

39 Cyflwynwyd y termau 'cyswllt' a 'phreswylio' ym 1991 gan Ddeddf Plant 1989 i ddisodli'r cysyniadau 'gwarchodaeth' a 'mynediad'.

fel rhai 'byw gyda' neu 'dreulio amser gyda', ac fe'u cofnodir felly yn nata gweinyddol Cafcass (yn Lloegr, ond nid tan yn fwy diweddar yng Nghymru[40]) i adlewyrchu'r trefniadau ymarferol sydd ar waith a realiti bywydau plant.

Gall cais am CAO gael ei wneud gan riant (gan gynnwys tad heb gyfrifoldeb rhieni [gweler isod]), llys-riant (priod neu bartner sifil rhiant), gwarcheidwad neu warcheidwad arbennig, a phobl eraill â chyfrifoldeb rhieni. Nid oes gan bobl eraill, gan gynnwys gofalwyr maeth yr awdurdod lleol, neiniau a theidiau a pherthnasau eraill, hawl awtomatig i wneud cais oni bai bod y plentyn wedi bod yn byw gyda nhw am flwyddyn o leiaf, ac mae'n rhaid iddynt geisio caniatâd gan y llys i wneud cais. Mae CAO 'byw gyda' yn rhoi cyfrifoldeb rhieni i'r unigolyn y bwriedir i'r plentyn fyw gydag ef ar hyd cyfnod y gorchymyn, a chaiff y llys ddarparu bod gan yr unigolyn gyfrifoldeb rhieni mewn CAO 'treulio amser gyda'. Dylanwadir ar amgylchiadau a natur achosion CAO gan bwy yw'r ymgeisydd/ymgeiswyr a ph'un a yw'n gais ar gyfer gorchymyn 'byw gyda' neu 'dreulio amser gyda'.

### Mater penodol a chamau gwaharddedig

Mae dau orchymyn arall ar gael o dan adran 8 i fynd i'r afael ag anghydfodau magu plant eraill a allai godi. Mae gorchymyn camau gwaharddedig yn gwahardd rhywun sydd â chyfrifoldeb rhieni ar gyfer plentyn rhag cymryd cam penodol a nodir yn y gorchymyn, fel mynd ag ef dramor heb ganiatâd. Gellir gwneud gorchymyn mater penodol pan nad yw'r rhieni neu bobl eraill sydd â chyfrifoldeb rhieni yn gallu penderfynu ar fater penodol yn ymwneud â magwraeth plentyn, fel pa ysgol y dylai fynd iddi, magwraeth grefyddol neu faterion iechyd.

## Gorfodi

Pan fydd CAO ar waith ond ni chydymffurfiwyd â'r trefniadau, caiff rhiant neu ofalwr perthnasol arall wneud cais i'r gorchymyn hwnnw gael ei orfodi ar ffurflen gais C79.[41] Cânt hefyd wneud cais am orchymyn cymunedol sy'n mynnu bod unigolyn yn gwneud gwaith di-dâl neu iawndal ariannol (i gael rhagor o fanylion, gweler Jarrett 2020). Canfu gwaith ymchwil blaenorol fod achosion gorfodi'n gymhleth ac yn anodd eu trin, gan gynnwys lefelau uchel o wrthdaro rhwng rhieni a/neu honiadau lles plant neu bryderon diogelwch fel arfer (Trinder et al. 2013). Mae ceisiadau ar gyfer gorfodi yn fach ar gyfartaledd, ond canfuwyd eu bod wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ymhlith rhieni a oedd wedi gwahanu (Cusworth et al. 2020; Cusworth et al. 2021a).

40 Yn dilyn ymarfer treialu yn ardal llys Gogledd Cymu, ac yn unol ag argymhelliad o'n gwaith ymchwil blaenorol (Cusworth et al. 2020), mae Cafcass Cymru wedi dechrau cofnodi 'treulio amser gyda' a 'byw gyda' ledled Cymru.

41 Mae arweiniad ar wneud cais i'r llys i orfodi CAO ar gael ar wefan yr MoJ: https://www.gov.uk/government/publications/enforcing-a-child-arrangements-order-cb5)

# Cyfrifoldeb rhieni

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r cysyniad cyfreithiol o gyfrifoldeb rhieni yn golygu 'yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn ac eiddo'r plentyn'.[42] Yn ymarferol, mae'n golygu'r pŵer a'r cyfrifoldeb i wneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â phlentyn, gan gynnwys ei addysg a sut y bydd plant yn cael eu magu, a'r gallu i roi caniatâd ar gyfer triniaeth feddygol.

Mae gan fam eni plentyn gyfrifoldeb rhieni yn awtomatig, ac felly hefyd tadau a oedd yn briod i fam y plentyn pan anwyd y plentyn, ail rieni benywaidd (o dan adran 42 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008) a oedd yn bartner sifil neu'n briod i'r fam pan anwyd y plentyn, a thadau di-briod a enwyd ar dystysgrif geni'r plentyn. Gall cytundeb cyfrifoldeb rhieni hefyd roi cyfrifoldeb rhieni i dad nad yw wedi'i enwi ar y dystysgrif geni, llys-rieni priod a phartneriaid sifil.[43]

Gall cais preifat am orchymyn cyfrifoldeb rhieni annibynnol gael ei wneud hefyd gan dad heb gyfrifoldeb rhieni (o dan adran 4(1)(a) Deddf Plant 1989), ail riant benywaidd plentyn (o dan adran 42 neu 43 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008) neu briod neu bartner sifil rhiant sydd â chyfrifoldeb rhieni. Mae amryw orchmynion cyfraith breifat – CAO 'byw gyda', gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig (SGO), gorchymyn rhieni a gorchymyn mabwysiadu – yn rhoi cyfrifoldeb rhieni a, heblaw yn achos gorchmynion mabwysiadu a rhieni (benthyg croth), rhennir hyn â'r rhai sydd eisoes â chyfrifoldeb rhieni.

# Mabwysiadu

Mae mabwysiadu'n cael ei lywodraethu gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn Lloegr a (chyda rhai mân ddiwygiadau) yng Nghymru.[44] Mae'r mwyafrif helaeth o achosion mabwysiadu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a leolir gyda darpar fabwysiadwyr gan asiantaeth fabwysiadu yn dilyn achos gofal cyfraith gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n bosibl i unigolion preifat wneud cais i fabwysiadu plentyn hefyd (mabwysiadu heb fod drwy asiantaeth) – a hynny'n fwyaf cyffredin gan lys-rieni.[45] Gall priod neu bartner sifil rhiant, ac weithiau unigolyn sy'n cyd-fyw ag ef, wneud cais i fabwysiadu plentyn sydd wedi byw gyda nhw am chwe mis o leiaf. Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol o leiaf dri mis cyn gwneud cais, ac mae'n ofynnol iddo

42 Adran 3(1) Deddf Plant 1989.
43 Nid yw Cafcass yn ymwneud â threfnu cytundebau o'r fath.
44 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Mabwysiadu heb fod drwy Asiantaeth) (Cymru) 2005.
45 Gellir gwneud ceisiadau hefyd gan berthynas plentyn, yr awdurdod lleol neu ofalwyr maeth preifat.

baratoi adroddiad ar gyfer y llys, ar ôl darparu gwybodaeth a chwnsela, ac ystyried safbwyntiau'r plentyn. Rôl gweithiwr cymdeithasol Cafcass, a adwaenir fel swyddog adrodd mewn achosion mabwysiadu heb fod drwy asiantaeth, yw sicrhau bod yr holl bartïon yn deall beth mae mabwysiadu'n ei olygu iddyn nhw a'r plentyn, a chael caniatâd gan riant arall y plentyn. Mae mabwysiadu'n terfynu cyfrifoldeb rhieni a thadolaeth neu famolaeth gyfreithiol y rhiant geni arall hwn, ac mae'r llys-riant yn ei ddisodli'n gyfreithiol fel rhiant y plentyn, felly ystyrir ei fod yn orchymyn mwy eithafol o lawer na gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, cyfrifoldeb rhieni neu CAO.

## Gwarcheidiaeth arbennig

Cyflwynwyd SGOs gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, ac maen nhw'n rhoi cyfrifoldeb rhieni ar gyfer plentyn i un neu fwy o unigolion, sef aelodau o'r teulu neu ofalwyr maeth blaenorol fel arfer, tan i'r plentyn gyrraedd 18 oed.[46] Er bod gwneud SGO yn galluogi'r sawl sy'n dal y gorchymyn i arfer y cyfrifoldeb hwnnw 'ac eithrio pob un arall', mae'r cysylltiad cyfreithiol sylfaenol rhwng y plentyn a'i rieni geni yn cael ei warchod ac maen nhw'n cadw cyfrifoldeb rhieni.[47] Er bod y fframwaith polisi gwreiddiol yn bwriadu i SGOs gael eu gwneud o ganlyniad i gais cyfraith breifat gan ofalwyr presennol a sefydledig plentyn (gyda gofyniad preswylio o flwyddyn o leiaf), maen nhw bellach yn fwy cyffredin o lawer ar ddiwedd achosion gofal fel dull amddiffyn plant tymor hir (gweler Harwin et al. 2019 am adolygiad o'r gwaith ymchwil). Rhwng 2011 a 2021 yn gynwysedig, amlygodd data gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) fod cyfanswm o 50,300 o SGOs wedi cael eu rhoi yng Nghymru a Lloegr, mewn perthynas â 74,400 o blant; ar gyfer 56,800 o blant mewn achosion cyhoeddus a 17,500 o blant mewn achosion cyfraith breifat (MoJ 2022a).[48]

I wneud cais preifat ar gyfer SGO, mae angen rhoi gwybod i'r awdurdod lleol (os nad yw eisoes yn ymwneud â'r teulu) a chynhelir proses asesu drwyadl i sicrhau bod SGO ym mhennaf les y plentyn. Ar hyn o bryd, nid oes gan unigolion sy'n gwneud cais preifat ar gyfer SGO hawl i gael cymorth cyfreithiol,[49] er y gallai'r awdurdod lleol gynorthwyo gwarcheidwaid arbennig i wneud cais o'r fath mewn rhai achosion er mwyn atal achosion gofal. Mae cymorth ariannol ar ôl i orchymyn gael ei wneud yn

46 Mae SGOs wedi'u tanategu gan Reoliad Gwarcheidiaeth Arbennig 2005, Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Diwygio) 2016, a Chanllawiau Gwarcheidiaeth Arbennig 2017 (Adran Addysg 2017) yn Lloegr a Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygiadau) 2018 yng Nghymru.

47 Adran 14C(1)(b) Deddf Plant 1989.

48 Nid yw'r gwaith ymchwil hwn yn cynnwys SGOs a wnaed mewn achosion (gofal) cyfraith gyhoeddus.

49 Bydd newidiadau y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno ym mis Mai 2023 yn ymestyn y ddarpariaeth cymorth cyfreithiol (â phrawf modd) i ofalwyr sy'n berthnasau sy'n gwneud cais am orchmynion gwarcheidiaeth arbennig mewn cyfraith breifat.

ddewisol yn aml, fe allai fod yn wahanol i'r hyn a oedd ar gael pan oedd y plentyn yn derbyn gofal yn flaenorol, ac mae'n amrywio rhwng awdurdodau lleol (McGrath 2022). Yn wahanol i achosion gofal cyfraith gyhoeddus, lle y cynrychiolir plant yn annibynnol bob amser, nid yw hyn yn wir mewn cais ar gyfer SGO cyfraith breifat, oni bai bod y llys yn teimlo ei bod yn angenrheidiol ac yn gorchymyn bod gwarcheidwad plant yn cael ei benodi o dan reol 16.4.

## Gorchymyn rhieni (ceisiadau benthyg croth)

Mae benthyg croth, fel y'i diffinnir yn Neddf Trefniadau Benthyg Croth 1985, yn drefniant lle mae menyw (y fam faeth) yn dod yn feichiog gyda phlentyn a allai fod yn perthyn iddi'n enetig, neu beidio, ac yn rhoi genedigaeth i'r plentyn ar ran teulu arall (y pâr comisiynu neu'r rhieni bwriadedig). O dan gyfraith bresennol y Deyrnas Unedig, y fam faeth (a'i gŵr, os yw'n briod) yw rhiant cyfreithiol y plentyn ar adeg ei eni, ac mae'n rhaid i'r rhieni bwriadedig wneud cais am orchymyn rhieni ar ôl i'r plentyn gael ei eni yn unol ag adran 54 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg (HFEA) 2008. Yn ystod achos, bydd y llys yn penodi swyddog Cafcass i weithredu fel adroddwr gorchymyn rhieni. Mae'n ofynnol iddo ddarparu adroddiad i'r llys sy'n asesu p'un a fodlonir y meini prawf ar gyfer gorchymyn rhieni (a amlinellir yn a54 HFEA 2008) a ph'un a yw gwneud gorchymyn ym mhennaf les y plentyn, gan ystyried lles gydol oes y plentyn yn erbyn y rhestr wirio lles a amlinellir yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (A1(4))). Pan roddir gorchymyn rhieni, mae'r rhiant/rhieni bwriadedig yn cael mamolaeth a thadolaeth gyfreithiol a chyfrifoldeb rhieni llwyr ar gyfer y plentyn ac mae'r berthynas gyfreithiol rhwng y plentyn a'r fam faeth yn cael ei thorri'n barhaol. Mae Comisiwn y Gyfraith a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban wedi cynnal adolygiad ar y cyd o'r deddfau sy'n ymwneud â benthyg croth yn ddiweddar, a disgwylir i ddeddfwriaeth ddrafft gael ei chyhoeddi yn y gwanwyn 2023.

## Ceisiadau eraill

Mae gorchmynion eraill yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt: ceisiadau am ddatganiad ynglŷn â ph'un a yw unigolyn a enwyd yn rhiant plentyn, sy'n golygu y gellir ailgofrestru genedigaeth y plentyn gyda manylion y rhiant hwnnw ond nid yw'n darparu cyfrifoldeb rhieni (datgan o bwy yw'r rhieni); ceisiadau i amrywio, rhyddhau neu ddirymu gorchymyn presennol; a cheisiadau i geisio caniatâd gan y llys i wneud cais am orchymyn (os nad oes caniatâd awtomatig i wneud hynny).

## Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu gwaith dadansoddi ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sy'n ceisio hybu lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd addysg, lles, a chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

## Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol

Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, ac mae Cafcass a Cafcass Cymru yn rhanddeiliaid allweddol. Fe'i hariennir gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

## Banc Data SAIL

Mae'r data Cafcass a Cafcass Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael o'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n rhan o'r seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r prosiect gan y Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) o dan brosiect SAIL 0990. Pan roddir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: www.saildatabank.com/application-process

Nuffield
Family Justice
Observatory

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2023
100 St John St, Llundain EC1M 4EH Rhif ffôn: 020 7631 0566
Elusen gofrestredig 206601

nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO
www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound